Medr/2026/08: Atodiad A

ADRODDIAD YMCHWIL

# Y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru: ymgynghoriad

Paratowyd ar gyfer:
Medr



Ymchwil Beaufort
2 Maes yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG
029 2037 8565
enquiries@beaufortresearch.co.uk
beaufortresearch.co.uk

## Manylion Cyswllt

Cysylltiadau'r asiantaeth: Fiona McAllister, Catrin Davies, Adam Blunt
Prosiect: BQ02519
Dyddiad: Ionawr 2026

## Telerau'r contract

Oni chytunir fel arall, mae hawlfraint canfyddiadau'r astudiaeth hon yn parhau i fod yn eiddo i Beaufort Research Ltd ac ni chaniateir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hatgynhyrchu heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y cwmni.

Dim ond ar sail gwall neu gamliwio y gwrthodir cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi.

Rhaid i unrhyw gyhoeddiad a gymeradwyir gynnwys y manylion canlynol: Beaufort Research Cyf. fel darparydd, maint y sampl a dyddiadau'r gwaith maes.

© Ymchwil Beaufort Cyf 2026

Cynhaliwyd y prosiect hwn yn unol ag ISO20252

# Mynegai

1. Crynodeb Gweithredol ........ 4

2. Cefndir, amcanion a dull yr ymgynghoriad ........ 9

2.1 Nod ac amcanion yr ymgynghoriad ........ 9

2.2 Dull a sampl yr ymgynghoriad ........ 9

3. Yr hyn y mae'r Rhaglen newydd yn ceisio'i gyflawni 11

3.1 Ai dyma'r Egwyddorion Lefel Uchel cywir ar gyfer y rhaglen brentisiaeth newydd yng Nghymru? ........ 11

3.2 Sut y gallwn ni wneud y rhaglen brentisiaethau yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, gan gynnwys ymateb i newidiadau economaidd, gofynion y farchnad lafur, gwahaniaethau rhanbarthol a thueddiadau gweithlu'r dyfodol yng Nghymru? ........ 12

3.3 Pa arloesedd neu newidiadau yr hoffech chi eu gweld yn y rhaglen brentisiaethau arfaethedig i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn gynhwysol, ac yn effeithiol i'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr yng Nghymru? ........ 13

3.4 Sut olwg fyddai ar lwyddiant ymhen pum mlynedd? ........ 14

3.5 A yw'r diffiniad o brentisiaeth yng Nghymru yn nodi'r hyn y mae angen i'r Rhaglen newydd ei gyflawni? ........ 16

4. Fframweithiau sector prentisiaeth ........ 19

4.1 A ydyw'r sectorau hyn yn addas i ddiwallu anghenion yr economi ac anghenion dysgwyr? ........ 19

4.2 A oes unrhyw sectorau galwedigaethol eang y byddech chi'n disgwyl eu gweld nad ydynt wedi'u cynnwys? ........ 21

4.3 Sut ddylai fframweithiau sector esblygu i adlewyrchu diwydiannau sy'n dod i'r amlwg, anghenion sgiliau, a blaenoriaethau rhanbarthol yng Nghymru, beth yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer hyn? ........ 21

5. Dysgwyr ........ 24

5.1 Pa agweddau ar daith y dysgwr ar hyn o bryd mewn prentisiaethau sy'n gweithio'n dda, a ble ydych chi'n gweld cyfleoedd i wella er mwyn cynorthwyo dysgwyr yn well drwy gydol eu dysgu? ........ 24

5.2 Pa ganlyniadau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer prentisiaid (e.e. cyflogaeth gynaliadwy, cymwysterau), a sut y gellir mesur a chynorthwyo'r rhain yn effeithiol? ........ 28

5.3 Sut y gallwn ni ddenu mwy o brentisiaid, a/neu garfan ehangach o brentisiaid i'r rhaglen, waeth beth fo'u cefndir neu eu man cychwyn? ........ 30

6. Cyflogwyr / diwydiant ........ 32

6.1 Sut y gallwn ni ehangu nifer ac ystod y cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau, yn enwedig busnesau bach a chanolig? 32

6.2 Sut y gall cyflogwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglen brentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith? 36

6.3 Sut y gellir cefnogi busnesau'n well wrth weithio gyda phrentis? Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i gyflogwyr, cyn cyflogi prentis ac yn ystod taith ddysgu'r prentis? 38

6.4 Sut y gallwn ni sicrhau rhaglen sy'n cefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol a chynllunio sgiliau sy'n seiliedig ar le? 38

7. Darparwyr dysgu 41

7.1 Sut y gall darparwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglenni prentisiaeth er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith? 41

7.2 Beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen ei gryfhau o safbwynt darparydd? 42

8. Y Gymraeg 44

8.1 Rhwystrau i fynediad at brentisiaethau yn Gymraeg 44

8.2 Sut y gallwn ni annog mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog yn y gweithle ledled Cymru? 46

9. Prentisiaethau cynhwysol 49

9.1 Pa rwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ran cael mynediad at brentisiaethau a llwyddo ynddynt, a sut y gall dyluniad y rhaglen newydd fynd i'r afael â'r heriau hyn ac annog cadw dysgwyr? 49

9.2 Pa strategaethau recriwtio wedi'u targedu all gefnogi cyfranogiad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? 54

9.3 A oes gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? 54

9.4 A ddylem ni barhau i ariannu'r rhaglen prentisiaethau â chymorth a'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr? 56

9.5 A oes opsiynau eraill yn ogystal / yn lle hynny a fyddai'n helpu i gynorthwyo prentisiaethau cynhwysol yn fwy? 57

9.6 Beth allem ni ei wneud i gynorthwyo cyfranogiad mewn prentisiaethau ar gyfer y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? 57

10. Atodiadau 58

Atodiad 1: Egwyddorion Lefel Uchel 58

Atodiad 2: Fframweithiau sector newydd arfaethedig 59

Atodiad 3 : Enghreifftiau o arfer da gan randdeiliaid ar gyfer ehangu cyfranogiad a denu grwpiau tangynrychioledig 60

# 1. Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Cyflwyniad

Ym mis Medi 2025, lansiodd Medr yr ymgynghoriad ar y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru. Gofynnai am farn amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr hyfforddiant ac addysg drydyddol, cynrychiolwyr diwydiant, cyflogwyr ac awdurdodau lleol er mwyn helpu i lunio'r Rhaglen newydd o 2027.

Y nod oedd adeiladu ar waith ymgysylltu cynharach, deall yn fanylach yr hyn sy'n gweithio'n dda, a nodi gwelliannau pellach i sicrhau bod y Rhaglen Brentisiaethau newydd yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach yn effeithiol o ran sgiliau yn y dyfodol.

Gwahoddwyd ystod eang o randdeiliaid gan Medr i gyfrannu at yr ymgynghoriad drwy ymateb i'r holiadur ymgynghori ar-lein (26 o gwestiynau penagored wedi'u datblygu gan Medr) a/neu rannu eu barn drwy fynd i un o'r pum digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ar-lein a wyneb yn wyneb.

Comisiynwyd Beaufort Research gan Medr i helpu i gynnal y digwyddiadau ar y cyd â Medr ac i ddadansoddi allbynnau'r digwyddiadau a'r ymatebion ar-lein. Roedd yr ymgynghoriad ar-lein ar agor rhwng 15 Medi a 31 Hydref 2025 a chynhaliwyd y pum digwyddiad ymgynghori bob wythnos rhwng 24 Medi a 22 Hydref.

## 1.2 Crynodeb o'r canfyddiadau

Adborth ar yr Egwyddorion Lefel Uchel

- Cafwyd cytundeb eang ymhlith rhanddeiliaid fod yr egwyddorion yn gynhwysfawr, yn gadarnhaol, ac yn creu sylfaen gref ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd.
- Cafodd yr ymagwedd pob oed a'r ffocws ar hyblygrwydd, canlyniadau o ansawdd, a chyfleoedd datblygu eu cymeradwyo'n gryf ar gyfer cefnogi uwchsgilio'r gweithlu a chynllunio olyniaeth.
- Roedd rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r uchelgais am system sy'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, gyda chyfranogiad gweithredol gan gyflogwyr a chydnawsedd â strategaethau diwydiannol a sgiliau Cymru.

- Credwyd bod yr egwyddorion yn trafod meysydd hanfodol, ond amlygodd rhai rhanddeiliaid heriau posibl wrth eu cyflawni, yn enwedig o ran hyblygrwydd a'r cyllid a ddyrennir.
- Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y diffiniad presennol o 'brentisiaeth' yn glir ac yn gywir, ond roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y gellid ei wella i roi adlewyrchiad gwell o ddysgu gydol oes, datblygiad gyrfaol, a natur amrywiol cyfleoedd prentisiaeth.

### Adborth ar fframweithiau arfaethedig y sector prentisiaethau

- Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid o blaid cyfuno fframweithiau, gan ystyried bod y strwythur newydd yn hyrwyddo hyblygrwydd gan fodloni anghenion dysgwyr ac economi Cymru ar yr un pryd. Teimlai rhanddeiliaid y byddai'r categorïau ehangach o gymorth i sicrhau bod y fframweithiau'n parhau i fod yn berthnasol, ac y gellid eu haddasu i amgylchiadau newidiol.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd adolygu parhaus, cynnwys rhanddeiliaid, a'r gallu i addasu i gyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol er mwyn cadw fframweithiau'n berthnasol.
- Codwyd rhai cwestiynau ynghylch eglurder rhai o'r fframweithiau arfaethedig a sut i'w gweithredu'n ymarferol. Nododd rhanddeiliaid y gallai rhai sectorau fod yn rhy eang neu heb eu diffinio'n glir, a allai achosi dryswch.
- Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r cynigion ynghylch sut y gallai'r fframweithiau esblygu dros amser, gan gynnwys integreiddio sgiliau â blaenoriaeth (e.e. sgiliau digidol, gwyrdd a meddal), gan alluogi hyblygrwydd a symud rhwng sectorau, a chyflwyno microgymwysterau / cyrsiau a chymwysterau atodol hyblyg.
- Amlygwyd bod defnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) a mewnbwn gan gyflogwyr yn hanfodol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu'r fframweithiau. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y dylai fframweithiau fod yn gydnaws â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a bargeinion Dinesig a Thwf, ac y byddai mecanweithiau cadarn ar gyfer mewnbwn rhanddeiliaid a chylchoedd adolygu tryloyw yn hanfodol ar gyfer llwyddiant hirdymor.

### Adborth ar ddysgwyr

- Roedd enghreifftiau o’r hyn yr oedd rhanddeiliaid yn teimlo oedd yn gweithio'n dda o ran taith y dysgwr yn cynnwys arbenigedd a chefnogaeth gref gan ddarparwyr, a gofal cyfannol a bugeiliol; cymwysterau cadarn; cydweithio agos rhwng darparwyr, cyflogwyr a dysgwyr; agweddau ar y profiad dysgu (e.e. profiad o'r byd go iawn, addysgu o ansawdd uchel); yr ymagwedd pob oed a'r gallu i ennill wrth ddysgu.

- Un o'r prif themâu oedd cryfhau Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd - yn enwedig gan ysgolion - uwchsgilio athrawon, a defnyddio deunyddiau diddorol, hygyrch ac astudiaethau achos perthnasol. Argymhellwyd hefyd y dylid cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu proffil uchel.
- Ystyriwyd hefyd ei bod hi'n allweddol dathlu llwybrau galwedigaethol a sicrhau bod prentisiaethau'n cael eu gwerthfawrogi ochr yn ochr â llwybrau academaidd.
- Roedd awgrymiadau ynghylch sut i wella taith y dysgwr yn cynnwys ymgorffori Sgiliau Hanfodol yn naturiol, cydnabod dysgu blaenorol, mwy o hyblygrwydd wrth gyflwyno (e.e. modiwlaidd, cyfunol), llwybrau dilyniant mwy cydlynol rhwng lefelau a sectorau a gwella cymorth i ddysgwyr (e.e. rhwydweithiau cymheiriaid).

### Adborth ar gyflogwyr / diwydiant

- Dyma brif safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch agweddau allweddol i'w trafod a fyddai'n annog ystod ehangach o gyflogwyr i gymryd rhan yn :
  - Gwella dealltwriaeth ac arweiniad cyflogwyr drwy gyfathrebu clir, targededig sy'n pwysleisio manteision prentisiaeth, a chreu hwb gwybodaeth canolog / 'siop un stop".
  - Prosesau symlach a llai o fiwrocratiaeth
  - Cymhellion ariannol ac anariannol, yn enwedig ar gyfer busnesau bach a chanolig
  - Cymorth parhaus, rhagweithiol, mentora, a rhwydweithiau cymheiriaid i gyflogwyr
  - Mwy o hyblygrwydd wrth ddylunio a chyflwyno rhaglenni
  - Cyfranogiad cryfach a mwy amrywiol gan gyflogwyr wrth ddylunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni e.e. sefydlu / cryfhau byrddau cynghori dan arweiniad cyflogwyr, grwpiau sector a phaneli cyd-ddylunio; a sefydlu dolenni adborth rheolaidd, strwythuredig.

### Adborth ar ymgysylltu â darparwyr dysgu

- O ran sut y gall darparwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni prentisiaeth, cadarnhaodd gwahanol fathau o randdeiliaid y dylai darparwyr fod yn bartneriaid strategol o'r cychwyn cyntaf. Ystyriwyd bod ymgynghori ffurfiol a chydweithio parhaus yn bwysig i sicrhau bod rhaglenni'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, ac anghenion rhanbarthol.
- Roedd awgrymiadau ar gyfer cryfhau cydweithio yn cynnwys fforymau strategol rheolaidd, cydgysylltiedig a byrddau crwn sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid.
- Galwyd hefyd am ddolenni adborth mwy mynych a thryloyw, gwerthuso parhaus, a chasgliadau data strwythuredig (e.e. arolygon dysgwyr ledled Cymru) i lywio dylunio a darpariaeth rhaglenni.

- Yn fwy cyffredinol, roedd y cryfderau cyfredol a nodwyd o safbwynt darparwyr yn cynnwys partneriaethau cryf rhwng darparwyr a chyflogwyr, cefnogaeth a chynhwysiant dysgwyr, trefniadau sicrhau ansawdd trwyadl, a dysgu cyfunol.
- Roedd y meysydd i'w gwella a awgrymwyd yn cynnwys mwy o hyblygrwydd o ran ariannu (e.e. cyllid cynaliadwy dros sawl blwyddyn), adolygiad o'r 'rheol 80% o hyd[1]', a chyd-ddarpariaeth agosach rhwng darparwyr a chyflogwyr.

### Adborth ar brentisiaethau Cymraeg

- Roedd cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i ymgorffori'r Gymraeg fel egwyddor graidd wrth ddylunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni prentisiaeth.
- I randdeiliaid, roedd llwyddiant hirdymor yr uchelgais hon yn dibynnu ar fuddsoddiad strategol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy ddatblygu'r gweithlu, cynyddu adnoddau dwyieithog, ymgysylltu â chyflogwyr, a monitro'r defnydd a'r galw. Mae angen mwy o hyfforddwyr ac aseswyr sy'n siarad Cymraeg i gyflawni hyn.
- Er bod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn eiriol dros ddulliau uchelgeisiol, cynhwysol ac ymarferol, roedd lleiafrif yn rhybuddio rhag gorfodi gofynion lle'r oedd y galw'n isel.

### Adborth ar brentisiaethau cynhwysol

- Roedd atebion rhanddeiliaid o ran cyfranogiad grwpiau tangynrychioledig yn canolbwyntio ar:
  - Ymgyrchoedd cynaliadwy, cynhwysol ac allgymorth wedi'i dargedu at ddysgwyr, rhieni, cyflogwyr a chymunedau – a defnyddio modelau rôl amrywiol
  - Archwilio opsiynau am gymorth ariannol (e.e. bwrsariaethau, cronfeydd caledi, cymorth teithio a gofal plant)
- Cyllido cymorth cofleidiol ar gyfer iechyd meddwl, ADY, ac anableddau; ymgorffori mentora, hyfforddi, a chynlluniau dysgu wedi'u personoli; ehangu'r gefnogaeth ar ôl cwblhau.
- Gweithio gyda sefydliadau eraill (e.e. Busnes Cymru) er mwyn cynorthwyo cyflogwyr i ehangu eu gwybodaeth am amrywiaeth, recriwtio cynhwysol, ac addasiadau rhesymol.
- Caniatáu gofynion mynediad hyblyg (e.e. caniatáu i ddarparwyr dysgu asesu a yw rhaglen yn addas yn seiliedig ar yr wybodaeth fanwl sydd ganddynt am y dysgwr, gan mai'r darparwyr sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny). ehangu rhaglenni pontio a chyn-brentisiaeth.

[1] Rhaid i brentisiaid fod yn dysgu am o leiaf 80% o hyd disgwyliedig y rhaglen er mwyn i'r darparydd allu hawlio'r cyllid llawn ar gyfer fframwaith y prentisiaeth. Os bydd prentis yn cwblhau'n gynharach na hyn, bydd y darparydd yn derbyn swm llai o gyllid.

- Cynnal, ehangu a symleiddio'r Prentisiaethau â Chymorth a'r Cynlluniau Cymhelliant i Gyflogwyr.

(Mae rhai o’r atebion a gynigiwyd gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad y tu hwnt i gwmpas y Rhaglen Brentisiaethau.)

Mae'r ymgynghoriad yn tanlinellu rôl  ganolog gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o ansawdd uchel wrth ehangu cyfranogiad dysgwyr, yn ogystal â'r angen i ymgysylltu ag ystod ehangach o gyflogwyr ar frys. Mae Medr eisoes yn gweithredu cynlluniau i ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn casglu prif fewnwelediadau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a dysgwyr. Drwy wneud hynny gall ddatblygu gwelliannau pellach i'r cynnig prentisiaethau yng Nghymru yn llawn.

# 2. Cefndir, amcanion a dull yr ymgynghoriad

## 2.1 Nod ac amcanion yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr hyfforddiant ac addysg drydyddol, cynrychiolwyr o'r diwydiant, cyflogwyr ac awdurdodau lleol er mwyn helpu i lunio'r Rhaglen newydd ar ôl 2027.

Y nod oedd adeiladu ar waith ymgysylltu cynharach, deall yn fanylach yr hyn sy'n gweithio'n dda, a nodi gwelliannau pellach i sicrhau bod y Rhaglen Brentisiaethau newydd yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach yn effeithiol o ran sgiliau yn y dyfodol.

Amcanion yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar y canlynol:

- Yr Egwyddorion Lefel Uchel i lywio'r rhaglen brentisiaeth newydd
- Diffiniad o brentisiaeth
- Fframweithiau sectorau prentisiaeth
- Ymgysylltiad cyflogwyr
- Taith y dysgwr ar brentisiaeth
- Prentisiaethau cynhwysol
- Canlyniadau prentisiaid
- Cryfhau cyfleoedd yn y Gymraeg.

## 2.2 Dull a sampl yr ymgynghoriad

Gwahoddwyd ystod eang o randdeiliaid gan Medr i gyfrannu at yr ymgynghoriad drwy ymateb i'r holiadur ymgynghori ar-lein (26 o gwestiynau penagored wedi'u datblygu gan Medr) ac / neu drwy fynd i un o'r pum digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ar-lein a wyneb yn wyneb.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr hyfforddiant ac addysg drydyddol, cynrychiolwyr o'r diwydiant, cyflogwyr ac awdurdodau lleol i helpu i lunio'r Rhaglen newydd.

Cynhaliwyd y pum digwyddiad ymgynghori yn 2025 fel y disgrifir dros y dudalen.

| Dyddiad digwyddiad 2025 | Ffurf | Nifer yr unigolion |
|---|---|---|
| 24 Medi | Teams | 51 |
| 1 Hydref | Wyneb yn wyneb, Llandudno | 38 |
| 8 Hydref | Teams | 69 |
| 15 Hydref | Wyneb yn wyneb, Caerdydd | 51 |
| 22 Hydref | Teams | 65 |

Roedd yr ymgynghoriad ar-lein ar agor o 15 Medi i 31 Hydref 2025, a daeth 84 o ymatebion i law.

Mae rhai o’r atebion a gynigiwyd gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad y tu hwnt i gwmpas y Rhaglen Brentisiaethau.

# 3. Yr hyn y mae'r Rhaglen newydd yn ceisio'i gyflawni

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar yr Egwyddorion Lefel Uchel, diffiniad drafft Medr o brentisiaeth, hyblygrwydd y rhaglen, arloesi, a nodweddion llwyddiant ymhen pum mlynedd.

## 3.1 Ai dyma'r Egwyddorion Lefel Uchel cywir ar gyfer y rhaglen brentisiaeth newydd yng Nghymru?

Yn dilyn ymgysylltiad cychwynnol â rhanddeiliaid allweddol, datblygodd Medr gyfres o Egwyddorion Lefel Uchel ar gyfer y Rhaglen Brentisiaethau newydd. Eu pwrpas yw creu fframwaith strategol clir i lywio datblygiad y Rhaglen, gan sicrhau ei bod yn parhau i ymateb i anghenion y gweithlu, yn gydnaws â gwerthoedd sefydliadau, ac yn gallu creu canlyniadau dysgu cynaliadwy o ansawdd uchel (Gweler Atodiad 1 am y rhestr lawn o Egwyddorion Lefel Uchel.)

Adborth cyffredinol ar yr Egwyddorion Lefel Uchel
Ar y cyfan, cytunai'r rhanddeiliaid fod yr Egwyddorion Lefel Uchel yn gynhwysfawr, yn gadarnhaol ac yn briodol ac yn creu sylfaen gref ar gyfer y Rhaglen newydd, a dywedodd rhai ohonynt fod yr egwyddorion yn adlewyrchu arferion cyfredol.

Cafodd yr Egwyddorion Lefel Uchel ganmoliaeth eang am fod yn gadarnhaol ac yn uchelgeisiol, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at gynhwysiant ac ymatebolrwydd. Cafodd dull prentisiaethau pob oed yng Nghymru ei gefnogi'n gryf, gyda rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y ffaith bod y model cynhwysol hwn yn galluogi cyflogeion presennol i elwa, a bod hynny'n cefnogi uwchsgilio a chynllunio olyniaeth o fewn y gweithlu. Roedd cefnogaeth gref hefyd ymhlith rhanddeiliaid tuag at ffocws yr egwyddorion ar hyblygrwydd, canlyniadau o ansawdd, a chyfleoedd i symud ymlaen.

Roedd rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r uchelgais am system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a oedd hefyd yn diwallu anghenion cyflogwyr a'r economi. Cafwyd cefnogaeth hefyd gan randdeiliaid i'r gydnabyddiaeth bod angen cynnwys cyflogwyr yn weithredol wrth lunio a chefnogi prentisiaethau. Croesawyd yr egwyddorion ymhellach am eu bod yn cyd-fynd â strategaethau diwydiannol a sgiliau Cymru, y

gydnabyddiaeth o'r gwahaniaethau rhwng rhanbarthau ac anghenion economaidd lleol, ac am eu bod yn ymgorffori adborth blaenorol gan randdeiliaid.

I raddau helaeth, ystyriwyd bod yr egwyddorion yn trafod yr holl agweddau hanfodol, ond tynnodd rhanddeiliaid sylw at heriau posibl wrth eu cyflawni. Roedd rhai eisiau mwy o fanylion ynghylch sut y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu gweithredu o fewn y Rhaglen Brentisiaethau newydd. Hefyd, i rai, nid oedd yr egwyddorion yn cynrychioli rhyw lawer o newid oddi wrth y system bresennol, a oedd yn cael ei hystyried yn effeithiol, ond a allai elwa ar welliannau, yn enwedig o ran hyblygrwydd a dyraniadau cyllid. Trafodir y pryderon hyn drwy'r holl adroddiad yn yr adrannau perthnasol.

Daeth rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran y cyllid sydd ar gael i'r amlwg fel ffactor hollbwysig er mwyn cyflawni'r Egwyddorion Lefel Uchel ac er llwyddiant y Rhaglen Brentisiaethau.

## 3.2 Sut y gallwn ni wneud y rhaglen brentisiaethau yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, gan gynnwys ymateb i newidiadau economaidd, gofynion y farchnad lafur, gwahaniaethau rhanbarthol a thueddiadau gweithlu'r dyfodol yng Nghymru?

Er bod cynyddu hyblygrwydd yn thema amlwg yn adborth rhanddeiliaid o'r ymgynghoriad, roedd cysylltiad agos rhwng y rhan fwyaf o awgrymiadau ynghylch hyn a thestunau a drafodir yn rhannau eraill yr adroddiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Rhoi mwy o ran i gyflogwyr wrth nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg o ran sgiliau a llunio cynnwys y cwricwlwm.
- Gweithredu prosesau mwy ystwyth ac ymatebol ar gyfer adolygu a diweddaru fframweithiau prentisiaeth
- Ehangu argaeledd a'r defnydd o ddysgu digidol a chyfunol
- Cynnig darpariaeth fodiwlaidd a seiliedig ar gredydau sy'n galluogi prentisiaid i adeiladu cymwysterau mewn unedau llai, y gellir eu pentyrru.
- Cynyddu hyblygrwydd llwybrau mynediad a dilyniant gan ganiatáu i ddysgwyr ymuno a symud ymlaen drwy brentisiaethau ar wahanol gamau a chyflymderau

- Ymgorffori hyblygrwydd a sefydlogrwydd o ran cyllid i helpu darparwyr i ymateb i alw sy'n amrywio a galluogi dysgwyr i symud ymlaen ar eu cyflymder eu hunain heb rwystrau ariannol
- Cryfhau'r gallu i ymateb i amgylchiadau rhanbarthol er mwyn sicrhau y gellir teilwra darpariaeth prentisiaethau yn unol â hynny
- Mynd i'r afael â rhwystrau i grwpiau tangynrychioledig drwy greu llwybrau mwy cynhwysol a hyblyg.

## 3.3 Pa arloesedd neu newidiadau yr hoffech chi eu gweld yn y rhaglen brentisiaethau arfaethedig i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn gynhwysol, ac yn effeithiol i'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr yng Nghymru?

Mae'r prif newidiadau a awgrymwyd gan randdeiliaid ar gyfer y cwestiwn hwn eisoes wedi'u trafod mewn adrannau eraill. Er cyflawnder, amlinellir y themâu mewn ymateb i'r cwestiwn hwn isod:

- Manteisio ymhellach ar dechnoleg drwy greu platfform digidol canolog er mwyn ymgysylltu â dysgwyr, olrhain a rheoli contractau, ehangu darpariaeth o bell a hybrid a defnyddio technoleg i symleiddio prosesau gweinyddol.
- Cynnwys cyflogwyr yn y broses barhaus o ddylunio, adolygu a chyflwyno fframweithiau a chryfhau partneriaethau â busnesau bach a chanolig a chyrff y diwydiant yn ogystal â chefnogi modelau rhannu prentisiaeth.
- Targedu allgymorth a chefnogaeth i grwpiau dan anfantais a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, cynyddu llwybrau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a darparu dulliau asesu a darparu hyblyg, a chymorth cofleidiol.
- Cydnabod dysgu blaenorol a chynnig llwybrau gyrfa clir, gweledol
- Ymgorffori sgiliau llythrennedd, rhifedd, digidol, a Chymraeg mewn cyd-destunau galwedigaethol, gan addasu gofynion Sgiliau Hanfodol i anghenion y sector a'r dysgwyr, wrth integreiddio cynaliadwyedd, deallusrwydd artiffisial, a sgiliau gwyrdd ar draws pob fframwaith
- Symud tuag at fodelau ariannu sy'n seiliedig ar ganlyniadau
- Defnyddio dull o fonitro canlyniadau a thueddiadau o fewn sectorau sy'n seiliedig ar ddata.
- Cryfhau cyngor ac arweiniad gyrfaoedd ar bob lefel addysg, cynyddu gwelededd a chydraddoldeb prentisiaethau â llwybrau academaidd.

## 3.4 Sut olwg fyddai ar lwyddiant ymhen pum mlynedd?

Roedd y themâu ar gyfer y cwestiwn hwn yn adlewyrchu safbwyntiau ynghylch y cryfderau sydd gan y Rhaglen eisoes, cynigion am welliannau gan randdeiliaid a'r dyheadau a amlinellwyd gan Medr yn yr Egwyddorion Lefel Uchel.

Cyfranogiad, cynhwysiant ac amrywiaeth

- Cyfraddau cyfranogiad a chwblhau uwch ar draws pob demograffeg, yn enwedig ymhlith grwpiau tangynrychioledig (e.e. menywod mewn STEM, pobl anabl, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, siaradwyr Cymraeg, cymunedau gwledig, dysgwyr sy'n oedolion, a rhai sy'n newid gyrfa).
- Byddai diweithdra ymhlith pobl ifanc, gan gynnwys NEETs, yn sylweddol is.

Ymgysylltiad cyflogwyr ac ymatebolrwydd systemau

- Byddai ymgysylltiad a phartneriaethau cryfach â chyflogwyr. Byddai cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, yn ymwneud yn helaeth â dylunio, cyflwyno ac adolygu rhaglenni.
- Byddai darparwyr wedi'u cysylltu'n dda â diwydiant lleol, gan ffurfio rhwydwaith cydlynol sy'n symleiddio mynediad i gyflogwyr a dysgwyr. Byddai hyn yn sicrhau bod cynnwys prentisiaethau wedi'i alinio'n agos ag anghenion sgiliau'r presennol a'r dyfodol, gan gynnwys blaenoriaethau digidol, gwyrdd a sector-benodol.
- Byddai cyfraddau boddhad cyflogwyr yn uchel oherwydd y canfyddiad bod prentisiaethau yn ymateb i anghenion y gweithlu.

Ansawdd, cwblhau, a dilyniant

- Byddai meincnodau ansawdd yn cael eu cyrraedd yn gyson a byddent yn cael eu mesur drwy ddangosyddion cadarn fel boddhad dysgwyr, cwblhau amserol, a chanlyniadau cyflogaeth cadarnhaol, gan sicrhau drwy hynny fod y Rhaglen yn effeithiol ac yn ddibynadwy.
- Byddai'r cyfraddau cwblhau a dilyniant yn uwch, wedi'u cefnogi gan lwybrau clir wedi'u cyfleu'n dda, o lefel mynediad hyd at brentisiaethau gradd.
- Byddai prentisiaethau’n arwain at gyflogaeth barhaus, gyda sgiliau, a llwyddiant mewn gyrfa yn y tymor hir.

### Sefydlogrwydd a hyblygrwydd o ran cyllido

- Byddai gan y Rhaglen gylchoedd cyllido sefydlog, aml-flwydd, a fyddai'n rhoi sicrwydd wrth gynllunio a buddsoddi am y tymor hir.
- Byddai trefniadau cyllido yn hyblyg ac yn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg, gan alluogi arloesi ac addasu wrth i flaenoriaethau esblygu.
- Byddai cydraddoldeb o ran cyllid yn cael ei warantu ar draws sectorau a rhanbarthau.

### Y Gymraeg a chydraddoldeb rhanbarthol

- Byddai darpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael ei hehangu ar bob lefel er mwyn sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gefnogi'n llawn.
- Byddai mynediad teg at brentisiaethau ar gael ar draws pob rhanbarth, gan gynnwys ardaloedd gwledig a difreintiedig.
- Byddai prentisiaethau'n cyfrannu'n weithredol at gynnal y Gymraeg a diwylliant Cymru, gan ymgorffori treftadaeth ieithyddol a diwylliannol o fewn y system sgiliau.

### Hyblygrwydd systemau, moderneiddio, a thrawsnewid digidol

- Byddai gan y Rhaglen fframweithiau prentisiaeth modern, modiwlaidd a hyblyg. Byddai'r rhain yn ymgorffori dulliau seiliedig ar unedau a microgymwysterau i alluogi dysgwyr i feithrin sgiliau mewn modd mwy addasadwy.
- Byddai systemau digidol cadarn ar waith i gefnogi trefniadau olrhain, cyflwyno a gweinyddu, gan sicrhau effeithlonrwydd a thryloywder.
- Byddai opsiynau dysgu hybrid a hyblyg ar gael i ddiwallu anghenion y diwydiant a phatrymau sifftiau, gan wneud prentisiaethau'n hygyrch ac yn ymarferol i ddysgwyr a chyflogwyr.

### Data, mesur effaith, a gwelliant parhaus

- Byddai data cryfach am gyrchfannau ac effaith fel cyflogaeth gynaliadwy a datblygiad gyrfa yn cael eu casglu'n rheolaidd i fesur canlyniadau hirdymor, er mwyn peidio seilio llwyddiant ar gyfraddau cwblhau yn unig.
- Byddai ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei defnyddio i lywio polisi ac ymarfer, gan sicrhau bod penderfyniadau wedi'u seilio ar ddadansoddiad cadarn.
- Byddai fframweithiau prentisiaethau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n barhaus mewn ymateb i wybodaeth am y farchnad lafur.

### Parch cydradd â llwybrau academaidd

- Byddai prentisiaethau'n cael eu hyrwyddo a'u cydnabod fel rhai sy'n gydradd â llwybrau academaidd o ran statws a chyfle.

- Byddai ysgolion, rhieni, a'r cyhoedd ehangach yn gwerthfawrogi prentisiaethau fel opsiwn o ansawdd uchel, gyda llwybrau dilyniant clir a hygyrch i ddysgu uwch.
- Yn y pen draw, byddai prentisiaethau'n cael eu gweld fel llwybr dewis cyntaf, statws uchel yn hytrach na llwybr wrth gefn.

## 3.5 A yw’r diffiniad o brentisiaeth yng Nghymru yn nodi’r hyn y mae angen i’r Rhaglen newydd ei gyflawni?

Amlinellir diffiniad Medr o brentisiaeth isod:

*'Swydd â thâl gyda hyfforddiant yw prentisiaeth. Mae prentisiaid yn ennill profiad, yn dysgu sgiliau newydd ac yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ennill cyflog. Cwblheir hyn drwy fframwaith prentisiaeth.'*

### Yr argraff gyffredinol

Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn tueddu i gytuno bod y diffiniad hwn o brentisiaeth yn gywir ac yn glir ar y cyfan. I rai, roedd y diffiniad yn cwmpasu elfennau hanfodol prentisiaeth, h.y. cyflogaeth â thâl, hyfforddiant, a chymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn ei fod yn gul o ran cwmpas ac yn brin o iaith uchelgeisiol. Ystyriwyd ar adegau fod y diffiniad, a nodai mai 'swydd â thâl gyda hyfforddiant' yw prentisiaeth, yn glir ond yn sylfaenol.

### Cwmpas cyfyngedig

Un gwerthusiad cyffredin o'r diffiniad oedd y gred nad oedd yn rhoi adlewyrchiad llawn o bwrpas ehangach prentisiaeth fel llwybr strwythuredig ar gyfer dysgu gydol oes, dilyniant a datblygiad gyrfaol.

Yn ogystal â hynny, clywyd y gred gyffredin fod angen i'r diffiniad adlewyrchu amrywiaeth ac ehangder y cyfleoedd sydd ar gael. Nododd rhai rhanddeiliaid y gall prentisiaethau rychwantu pob lefel, gan gynnwys prentisiaethau uwch a gradd, lle gall unigolion ysgwyddo cyfrifoldebau pwysig neu rolau uwch. Fodd bynnag, roedd rhai o’r farn fod y diffiniad yn ymddangos fel pe bai'n canolbwyntio'n bennaf ar bobl ifanc, gydag ymadroddion fel 'ennill profiad', ac nad oedd felly'n cydnabod prentisiaid o bob oed, na'u holl amgylchiadau gwahanol.

### Ffocws annigonol ar gyflogwyr a darparwyr

Roedd rhai o'r farn fod y diffiniad yn rhy ganolog i'r dysgwr, heb ddigon o bwyslais ar rolau a chyfrifoldebau hanfodol cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant.

### Angen am iaith fwy uchelgeisiol

Weithiau roedd rhanddeiliaid yn teimlo y dylai'r diffiniad fod yn fwy ysbrydoledig / uchelgeisiol, gan roi pwyslais ar ddatblygiad proffesiynol, llwybrau gyrfa, a chydraddoldeb â llwybrau addysg eraill, fel prifysgol. I rai, roedd 'swydd â thâl' yn swnio fel pe bai'n rhywbeth dros dro, ac y gallai greu'r argraff anghywir mai rhaglen cyflogadwyedd neu gynllun cymhorthdal cyflogau oedd dan sylw.

### Cymhwysedd ac eglurder

I rai, roedd angen i'r diffiniad egluro mai profiadau dysgu seiliedig ar waith yw prentisiaethau, a bod cyflogaeth yn rhagofyniad er mwyn cymryd rhan. Yn ogystal â hynny, roedd rhai rhanddeiliaid yn amau a fyddai'r term 'fframwaith' yn cael ei ddeall yn eang y tu allan i'r sector, ac felly'n cwestiynu'r angen am y llinell 'diffinnir hyn drwy fframwaith prentisiaeth'.

### Cymhwysedd a chymwysterau galwedigaethol

Awgrymai rhai nad oedd y diffiniad yn pwysleisio'n llawn bod cymhwysedd galwedigaethol yn cael ei ddilysu. Roeddent felly'n teimlo y dylai'r diffiniad ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, datblygiad gyrfaol a chymhwysedd, nid cymwysterau yn unig.

### Yr angen am ddiffiniadau lluosog

Awgrymodd ychydig o randdeiliaid ei bod yn anodd crisialu ehangder ac ystod y prentisiaethau sydd ar gael drwy un diffiniad.

### Pwyntiau i'w hystyried

Ac ystyried y pwyntiau a wnaed uchod, awgrymwyd y diffiniadau canlynol gan randdeiliaid. Fel arall, gellid ymgorffori'r awgrymiadau hyn yn natblygiad datganiad gweledigaeth cyd-destunol ehangach, a fyddai'n helpu i ehangu'r diffiniad presennol gan fynd i'r afael ag adborth rhanddeiliaid ar yr un pryd:

- Ehangu'r diffiniad i'w wneud yn fwy cynhwysol a pherthnasol i bob oedran a lefel o brentisiaethau
- Nodi'n glir beth yw rolau cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant, gan amlygu'r bartneriaeth tair rhan sy'n gysylltiedig â hynny
- Pwysleisio'r manteision i'r cyflogwr
- Pwysleisio 'cymhwysedd galwedigaethol', 'sgiliau/uwchsgilio' a'r 'wybodaeth' a geir, a'r hyblygrwydd a gynigir drwy brentisiaeth

- Cyfleu'n glir bod cyflogaeth yn ofyniad gorfodol er mwyn cymryd rhan. Bydd hyn yn helpu i reoli disgwyliadau a sicrhau bod gan ddysgwyr, darparwyr a chyflogwyr ddealltwriaeth gyffredin o'r meini prawf cymhwysedd
- Defnyddio iaith uchelgeisiol sy'n pwysleisio 'datblygiad gyrfaol', 'dysgu gydol oes', a 'datblygiad proffesiynol’
- Ystyried newid 'cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol' i 'gymhwyster a gydnabyddir gan y diwydiant' i ddangos ymatebolrwydd i anghenion y diwydiant, a phwysleisio partneriaeth
- Ystyried datblygu diffiniadau lluosog i adlewyrchu amrywiaeth y llwybrau prentisiaeth
- Pwysleisio'r gallu i ennill wrth ddysgu gan fod ychydig yn ystyried hyn fel mantais fawr, yn enwedig yn y cyd-destun presennol o ran costau byw.
- Ymgynghori â dysgwyr ynghylch y diffiniad i sicrhau eu bod yn ei ddeall.

# 4. Fframweithiau sector prentisiaeth

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar ymatebion i gynlluniau fframwaith sector ar gyfer Rhaglen 2027. Ar hyn o bryd, mae 23 o fframweithiau prentisiaeth yn bodoli ar draws pob sector. Er mwyn gwella'r gallu i ymateb i ofynion sy'n esblygu, mae Medr yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r holl fframweithiau rhwng 2025 a 2027, gyda phwyslais neilltuol ar sgiliau gwyrdd a digidol. Bydd yr adolygiadau hyn yn rhoi'r flaenoriaeth i sicrhau dilyniant di-dor i ddysgwyr o Lefel 2 hyd at brentisiaethau gradd, gan leihau dyblygu a hwyluso datblygiad effeithiol. Yn ogystal â hynny, mae Medr yn anelu i gryfhau a symleiddio ansawdd fframweithiau sector drwy gyflwyno strwythur newydd, symlach ac ynddo 18 o fframweithiau, gan fynd i'r afael â thystiolaeth y gall fod yn her i ddysgwyr a chyflogwyr lywio drwy'r system gyfredol.

Cyflwynwyd rhestr o 18 o fframweithiau y mae Medr wedi'u datblygu i randdeiliaid yn seiliedig ar adborth o ymgysylltiad blaenorol â rhanddeiliaid. Rhoddwyd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar y fframweithiau newydd a nodi unrhyw broblemau neu fylchau.

## 4.1 A ydyw’r sectorau hyn yn addas i ddiwallu anghenion yr economi ac anghenion dysgwyr?

### Derbyniad cyffredinol a chwmpas

Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu crynhoi 23 o fframweithiau i greu 18 ohonynt. Ystyriwyd bod y categorïau ehangach yn fuddiol er mwyn hyrwyddo hyblygrwydd a diwallu anghenion economi a dysgwyr Cymru. Yn gyffredinol, cymeradwywyd y fframweithiau sector a gynigiwyd fel sail gadarn ar gyfer datblygiad a thwf parhaus.

Meddyliwyd y byddai effeithiolrwydd y fframweithiau sector yn y tymor hir yn ddibynnol ar systemau cryf ar gyfer adolygu parhaus, cynnwys rhanddeiliaid yn weithredol, a'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion sy'n newid. Ystyriwyd bod adolygiadau rheolaidd a'r gallu i addasu i flaenoriaethau rhanbarthol yng Nghymru yn hanfodol, gan sicrhau bod cymwysterau'n parhau i fod yn berthnasol ac wedi'u teilwra i anghenion busnesau lleol.

### Cwestiynu ac amheuon

Mynegodd rhai rhanddeiliaid amheuon ynghylch sut y gellid gweithredu rhai o'r fframweithiau'n ymarferol, eglurder rhai fframweithiau a'u gallu i ymateb i ofynion y farchnad lafur sy'n esblygu'n gyflym. Roedd y pwyntiau a wnaed yn cynnwys y canlynol:

- Er bod mwyafrif y rhanddeiliaid yn cytuno bod angen ymgorffori sgiliau gwyrdd ar draws pob fframwaith sector, roedd ychydig ohonynt o'r farn fod angen fframwaith arbennig ar wahân ar gyfer pynciau fel *Cynaliadwyedd*, *Technolegau Net Sero*, *Addasu i'r Hinsawdd* i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg e.e. datgarboneiddio a'r angen cynyddol am gapasiti o fewn y gweithlu wrth reoli carbon, cynllunio'n amgylcheddol, a chaffael yn gynaliadwy. Yn ogystal â hynny, nodwyd amrywiadau rhanbarthol yn y galw am sgiliau gwyrdd, fel ynni'r gwynt yng Nghanolbarth Cymru ac ynni morol yng Ngorllewin Cymru, a gofynnwyd am hyblygrwydd o fewn fframweithiau i ddarparu ar gyfer gwahaniaethau o'r fath.
- Roedd y penderfyniad i wahanu *Iechyd* oddi wrth *Ofal* weithiau'n cael ei gwestiynu, ac awgrymwyd y dylid eu cyfuno i wella symudedd y gweithlu a chanfyddiadau o'r sector. Awgrymwyd hefyd fod y sectorau hyn yn perthyn yn naturiol i'w gilydd ac ystyried y cysylltiad cyffredin ym mlaenoriaethau'r llywodraeth. Yn ogystal â hynny, nododd rhai nad oedd gan bob llwybr sy'n gysylltiedig  â iechyd gynnwys gwyddonol e.e. gweinyddiaeth feddygol
- Roedd rhai safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r categori *Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar*. Awgrymodd ychydig y dylid cyfeirio'n benodol at *Ofal plant* er mwyn cefnogi dealltwriaeth ac atal unrhyw gamddealltwriaeth. Roedd nifer fach yn credu y dylid cynnwys *Gofal plant* o fewn y sector gofal. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod *Addysg a'r blynyddoedd cynnar* yn grŵp naturiol
- Roedd y gwahaniaeth rhwng rhai teitlau sector (e.e. *Bwyd a Diod* o gymharu â *Lletygarwch ac Arlwyo*) yn aneglur i rai, a gallent achosi dryswch o bosib i gyflogwyr a dysgwyr
- Roedd ambell un hefyd yn teimlo y gallai grwpio *Peirianneg a Gweithgynhyrchu* fod yn ddryslyd, ac ystyried yr amrywiaeth o fewn yr ardaloedd hyn a'r angen i gydnabod eu gwahanol ofynion technegol. Yn achlysurol, cafwyd trafodaeth ynghylch lleoliad llwybrau penodol o fewn y fframweithiau. Er enghraifft, roedd yn well gan rai rhanddeiliaid gael cynnwys *Peirianneg Sifil* o dan *Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig* tra'r oedd eraill o'r farn ei fo yn perthyn yn y categori *Peirianneg.*
- Cafwyd ceisiadau hefyd am ganllawiau mwy eglur ynghylch lleoliad y meysydd/llwybrau canlynol o fewn y fframweithiau sector arfaethedig: diwylliant a threftadaeth, gwyddorau bywyd a deunydd fferyllol, marchnata, sgaffaldiau, ecoleg a bioamrywiaeth, tai, a rheoli twristiaeth.

## 4.2 A oes unrhyw sectorau galwedigaethol eang y byddech chi'n disgwyl eu gweld nad ydynt wedi'u cynnwys?

Cytunai'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid fod y rhestr arfaethedig o sectorau yn rhoi digon o sylw i'r anghenion cyfredol, ond yn parhau i fod yn ddigon eang i gynnwys llwybrau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, cafwyd ambell awgrym gan nifer cymharol fach o randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Nid yw prentisiaethau lefel gradd (Lefel 6) ar gael ar draws pob sector, er bod rhai o'r farn bod galw amdanynt ar raddfa ehangach. Roedd galwadau ymhlith rhanddeiliaid am ddadansoddiad ar draws sectorau lle nad oedd prentisiaethau gradd ar gael a lle bo tystiolaeth nad yw'r galw'n cael ei fodloni. I rai, roedd rhai o'r farn fod peidio cynnwys cyfleoedd ar Lefel 7 yn golygu colli cyfle i wella dilyniant.
- Galwodd rhai rhanddeiliaid am gael ychwanegu llwybrau unigol ar lefelau amrywiol mewn gwahanol sectorau ond roedd hynny y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

## 4.3 Sut ddylai fframweithiau sector esblygu i adlewyrchu diwydiannau sy'n dod i'r amlwg, anghenion sgiliau, a blaenoriaethau rhanbarthol yng Nghymru, beth yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer hyn?

Argymhellion rhanddeiliaid ar gyfer gwella a sut y gall y sectorau esblygu dros amser

*Integreiddio sgiliau â blaenoriaeth ar draws pob sector:* cymeradwyodd rhanddeiliaid yr angen i integreiddio sgiliau digidol, modiwlau deallusrwydd artiffisial a sgiliau gwyrdd ar draws pob sector, yn ogystal â chael eu sectorau eu hunain e.e. digidol. Roedd rhai hefyd yn credu y dylid ymgorffori sgiliau allweddol fel rhifedd a llythrennedd, a sgiliau meddal mewn unedau craidd, yn enwedig ar lefelau is, gan eu bod yn sgiliau trosglwyddadwy ar draws pob sector ac yn gwella cyflogadwyedd, yn enwedig i ddysgwyr iau.

*Hyblygrwydd rhwng fframweithiau a llwybrau clir:* weithiau roedd rhanddeiliaid yn cwestiynu sut mae fframweithiau'n caniatáu symud rhwng sectorau (e.e. o arlwyo i

letygarwch, neu o beirianneg i ynni) ac a yw sgiliau a chymwysterau'n drosglwyddadwy ar draws fframweithiau. Awgrymwyd yn eang y dylai'r fframweithiau ganiatáu elfen o hylifedd a hyblygrwydd, gan alluogi symudiad rhwng sectorau a llwybrau pwrpasol ar gyfer cyflogwyr a dysgwyr. Yn ogystal â hynny, roedd rhanddeiliaid yn credu'n gryf y gallai'r llwybrau dilyniant rhwng lefelau a sectorau ar gyfer dysgwyr fod yn gliriach.

*Microgymwysterau a chymwysterau 'atodol' hyblyg:* roedd rhanddeiliaid yn cadarnhau'n rheolaidd yr angen i gyflwyno'r cydrannau hyn er mwyn galluogi hyblygrwydd ac ymatebolrwydd yn y system a allai alluogi olygu bod modd diweddaru fframweithiau yn gyflymach.

Awgrymwyd y gallai cymwysterau atodol cyflym 'dewis a dethol' fod yn hygyrch i gyflogwyr, ac fe'u gwelwyd fel offeryn hyblyg i greu llwybrau pwrpasol wedi'u cynllunio'n arbennig i fodloni anghenion cyflogwyr. Byddent hefyd yn hwyluso datblygiad proffesiynol parhaus o fewn diwydiannau sefydledig. Yn ogystal â hynny, gallai'r cymwysterau atodol a phentyradwy hyn helpu dysgwyr i ennill sgiliau pellach sy'n berthnasol i anghenion sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiant.

*Diweddariadau a chyllid Symleiddio'r Fframwaith:* roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o'r farn fod system gyllido fwy ystwyth a phrosesau adolygu symlach yn hanfodol i gadw fframweithiau'n gyfredol ac yn ymatebol i newidiadau yn y diwydiant. Teimlwyd yn gyffredinol fod y broses ar gyfer diweddaru fframweithiau a chymwysterau yn rhy araf a biwrocrataidd. Nododd llawer fod y diffyg hyblygrwydd hwn yn cyfyngu ar allu'r system i ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg o ran sgiliau, yn enwedig mewn meysydd sy'n datblygu'n gyflym fel deallusrwydd artiffisial, dadansoddi data, a pheirianneg uwch.

*Diffiniadau cliriach o is-sectorau:* roedd rhai o'r farn y gallai fod yn anodd pennu'r sector priodol ar gyfer prentisiaethau penodol yn seiliedig ar enw fframwaith y sector yn unig. Er bod y categorïau eang yn gynhwysol ac yn cwmpasu ystod eang o sectorau, roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod rhywfaint o ddryswch ymhlith cyflogwyr ynghylch y teitlau a'r categoreiddio, gan ddangos bod angen cyfathrebu ac arweiniad cliriach, yn enwedig o ran diwydiannau sy'n dod i'r amlwg.

*Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs):* Er mwyn sicrhau bod y fframweithiau'n ymateb i alw am sgiliau sy'n newid ar draws yr economi, argymhellodd rhanddeiliaid y dylai data Gwybodaeth am y Farchnad Lafur lywio gwaith parhaus i ddatblygu ac adolygu fframweithiau prentisiaeth. Hefyd, o ran esblygiad fframweithiau sector i adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am gydnawsedd â

Chynlluniau Strategol a bargeinion Dinesig a Thwf, yn enwedig yn achos economïau gwledig. Credwyd bod sefydlu cylchoedd adolygu blynyddol neu ddwyflynyddol, a chynnwys mecanweithiau tryloyw ar gyfer mewnbwn gan randdeiliaid, yn hanfodol i'w llwyddiant tymor hwy (gweler 6.4 am drafodaeth bellach ar gynlluniau datblygu economaidd rhanbarthol).

*Llais y cyflogwyr:* pwysleisiodd rhanddeiliaid y pwysigrwydd i gyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, gael mwy o ran yn y broses o ddylunio ac adolygu fframweithiau. Roedd pryder ymhlith ychydig o randdeiliaid fod fframweithiau'n aml yn cael eu cynllunio heb ddigon o fewnbwn uniongyrchol gan gyflogwyr. Pwysleisiodd rhai hefyd bwysigrwydd ymgynghori â'r rhanddeiliaid cywir e.e. Cynghorau Sgiliau Sector, cyrff diwydiant a chyflogwyr wrth ddatblygu ac adolygu fframweithiau, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y byd go iawn (gweler pennod 6 am drafodaeth bellach ar gyflogwyr).

*Y llyfrgell fframwaith ar wefan Llywodraeth Cymru:* Nododd rhai rhanddeiliaid ei bod yn anodd cael mynediad i'r llyfrgell hon ac nad oedd yn cynnwys cyfleuster chwilio effeithiol, tra nododd rhai fod llwybrau penodol ar goll o'r wefan. Yn fwy cyffredinol, awgrymwyd ar adegau y gallai Medr wneud mwy yn y dyfodol i wneud y fframweithiau a'r llwybrau'n hygyrch i ddysgwyr a chyflogwyr. Credwyd bod cyfathrebu clir a symlrwydd yn hanfodol er mwyn i fframweithiau fod yn hygyrch.

*Alinio â sefydliadau eraill:* cynigiodd ychydig o ymatebwyr y dylid alinio sectorau'r fframwaith â rhai sefydliadau eraill. Roedd y mathau o sefydliadau a awgrymwyd yn amrywio ac yn cynnwys Addysg Bellach, Estyn, Cymwysterau Cymru a Meysydd Pwnc Sector. Awgrymodd ychydig o ymatebwyr fod angen mwy o weithio mewn partneriaeth ar draws sefydliadau o'r fath er mwyn anelu i alinio'r sectorau dros amser, gan y byddai'n fuddiol osgoi dryswch ymhlith dysgwyr a chaniatáu i ddysgwyr symud ymlaen yn ddi-dor.

# 5. Dysgwyr

Mae'r bennod hon yn ymdrin â safbwyntiau ynghylch cyfleoedd i wella taith y dysgwr, blaenoriaethu a mesur canlyniadau, a denu dysgwyr i'r Rhaglen brentisiaeth.

## 5.1 Pa agweddau ar daith y dysgwr ar hyn o bryd mewn prentisiaethau sy'n gweithio'n dda, a ble ydych chi'n gweld cyfleoedd i wella er mwyn cynorthwyo dysgwyr yn well drwy gydol eu dysgu?

5.1.1 Pa agweddau sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd

Arbenigedd darparwyr a chefnogaeth i ddysgwyr
Yn aml, cafodd y rhwydwaith cryf presennol sy'n cefnogi dysgwyr, gan gynnwys mentora a chymorth unigol i ddysgwyr, ei amlygu fel peth cadarnhaol gan wahanol fathau o randdeiliaid. Ystyriwyd hefyd fod ymweliadau rheolaidd gorfodol gan aseswyr yn rhoi cefnogaeth barhaus werthfawr ac o gymorth i gynnal ymgysylltiad. Roedd aseswyr da yn meithrin perthnasoedd â phrentisiaid a chyflogwyr, a oedd o gymorth i sicrhau llwyddiant a chadw staff. Yn ôl rhai, roedd darparwyr wedi gwella eu dealltwriaeth o anghenion dysgwyr ac roeddent yn ymatebol iddynt.

Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid hefyd at brosesau cynefino di-dor ac ymsefydlu cadarn, er bod cyfeiriad hefyd at sut y gallai cynefino fod yn heriol o hyd mewn rhai achosion, er enghraifft oherwydd oedi i brosesau cofrestru darparwyr dysgu.

Cymorth cyfannol a bugeiliol
Gan adeiladu ar y pwyntiau uchod, tynnodd rhai rhanddeiliaid o wahanol fathau sylw at gefnogaeth a oedd yn ymestyn y tu hwnt i hyfforddiant galwedigaethol. Roedd o gymorth i fynd i'r afael â meysydd fel iechyd meddwl, cynhwysiant digidol, a lles cyffredinol gyda chefnogaeth gofleidiol.

Y profiad dysgu
Cyfeiriodd sawl pwynt a wnaed gan randdeiliaid at y profiad dysgu ei hun. Roedd enghreifftiau'n cynnwys deunyddiau addysgu o ansawdd uchel, dysgu ymarferol, deniadol yn y gwaith, a modelau cyflwyno hybrid, a groesawyd er mwyn gwella presenoldeb a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai fod prentisiaethau lefel is yn dal i olygu bod angen mwy o gyswllt personol. Pwysleisiwyd effeithiolrwydd sesiynau wyneb yn wyneb er mwyn cynnal cynnydd

dysgwyr, ac roedd tybiaeth ei bod hi'n well gan rai dysgwyr ddulliau wyneb yn wyneb traddodiadol.

### Dilyniant a llwybrau gyrfa

Denodd y thema hon sylwadau cadarnhaol yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer gwella (gweler 5.1.2). Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at werth llwybrau dilyniant clir, lle ystyrir bod fframweithiau wedi'u cynllunio'n dda. Nodwyd bod dysgwyr yn elwa o allu gweld llwybr o lefel mynediad hyd at brentisiaethau uwch a chyflogaeth. Cydnabuwyd prentisiaethau gradd fel llwybrau effeithiol ar gyfer dilyniant gyrfa hirdymor. Roedd ychydig hefyd o'r farn fod cynnig fframweithiau Lefel 2 ochr yn ochr â Lefel 3 o gymorth i sicrhau dilyniant prentisiaid, gan sicrhau bod dysgwyr ar wahanol bwyntiau dechrau yn gallu symud ymlaen.

Lle roedd seilwaith yn caniatáu i brentisiaid archwilio cyfleoedd a throsglwyddo cymwysterau i rolau newydd, gwelwyd hyn yn effeithiol er mwyn cefnogi cyfraddau cwblhau a meithrin gallu. Fodd bynnag, adroddwyd bod llai o gyfleoedd o'r fath ar gael oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, gan gyfyngu ar ddilyniant a datblygiad mewnol.

Yn fwy cyffredinol, cafodd yr ymagwedd pob oed at brentisiaethau yng Nghymru ganmoliaeth eang.

### Canlyniadau a chyflawniad dysgwyr

Roedd rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r cymwysterau cadarn, a gydnabyddir yn broffesiynol, y mae prentisiaethau yng Nghymru yn eu darparu. Credai ambell un fod tystiolaeth o gyfraddau cyrhaeddiad uwch a chyflawniad uchel o fewn fframweithiau.

Rhoddwyd clod hefyd i brentisiaethau am hybu hyder, hunan-barch a gallu dysgwyr i ennill incwm wrth ddysgu. Gwelwyd bod cystadlaethau sgiliau a chyfleoedd allgyrsiol yn gwella cymhelliant a chydnabyddiaeth ymhellach.

Roedd y profiad gwaith a'r aeddfedrwydd a fyddai'n cael ei ennill yn ystod prentisiaeth yn elfennau gwerthfawr pellach i ddysgwyr. Ystyriwyd bod y cyfle i ddatblygu sgiliau bywyd a phrofi twf personol hefyd yn fanteision allweddol ar daith prentisiaid.

### Partneriaeth a chydweithio

Nododd rhanddeiliaid ar adegau fod partneriaethau cryf rhwng darparwyr a chyflogwyr, yn ogystal â rhwydweithiau is-gontractio effeithiol, hefyd yn cefnogi profiadau cadarnhaol i ddysgwyr. Y prentisiaethau mwyaf llwyddiannus, yn ôl rhai,

oedd y rhai lle'r oedd y cyflogwr, y dysgwr a'r darparydd yn cydweithio'n agos, gyda chyfathrebu rheolaidd a chyd-gyfrifoldeb dros gynnydd y dysgwr.

#### Cefnogaeth a rhwydweithiau cymheiriaid

Lle tybiwyd bod hynny wedi'i sefydlu, roedd gwerth cefnogaeth gan gymheiriaid a chyfleoedd y tu hwnt i'r cymhwyster, fel siaradwyr gwadd, rhwydweithio, a rhwydweithiau prentisiaid traws-sector, yn cael ei ystyried yn gryfder.

### 5.1.2 Cyfleoedd am welliannau i roi cefnogaeth well i ddysgwyr

Cyfeiriodd rhanddeiliaid at nifer o agweddau lle roeddent yn teimlo y gellid cefnogi dysgwyr yn well.

#### Arweiniad ac ymwybyddiaeth o yrfaoedd

Roedd rhanddeiliaid ar draws mathau o sefydliadau yn tynnu sylw'n rheolaidd at Gyngor, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaoedd (CIAG), fel cyfle allweddol i wella. Trafodir hyn yn 5.3.

#### Sgiliau Hanfodol Cymru a rhwystrau asesu

Yn aml, roedd gwahanol fathau o randdeiliaid yn teimlo bod angen gwelliannau mewn perthynas â Sgiliau Hanfodol. Dyma rai o'r enghreifftiau a gynigiwyd:

- Ymgorffori a chyd-destunoli Sgiliau Hanfodol yn fwy naturiol i hyfforddiant galwedigaethol. Gallai'r Peilot Sgiliau Integredig, yn ôl rhai rhanddeiliaid, helpu i fynd i'r afael â'r hyn.
- Mabwysiadu ymagwedd portffolio a symleiddio prosesau asesu a chymhwyso
- Archwilio sut i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng anghenion dysgwyr a gofynion y fframwaith o ran Sgiliau Hanfodol, er enghraifft o ran amseru cyflwyno llythrennedd a rhifedd
- Gallai Sgiliau Hanfodol fod yn ddewisol.

#### Cyfle, mynediad, hyblygrwydd a dilyniant

Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn fod angen gwelliannau o ran y diffyg lleoedd prentisiaeth sydd ar gael, gan gynnwys gyda chyflogwyr mwy, a oedd yn achosi gorgyflenwad o ymgeiswyr a thagfeydd. Nododd gwahanol fathau o randdeiliaid yn rheolaidd nad oes digon o gyflogwyr yn ymgysylltu â'r system. Sylw pellach a wnaed oedd bod rhagfarn ganfyddedig ymhlith dysgwyr o blaid prentisiaethau gyda chwmnïau mawr, adnabyddus, a all gyfyngu ar eu cysylltiad â chyfleoedd gyda busnesau bach a chanolig.

Agwedd arall i'w gwella y cyfeiriwyd ati o bryd i'w gilydd ymhlith gwahanol fathau o randdeiliaid, oedd y ffaith bod canlyn llwybrau dilyniant yn gallu bod yn heriol. Teimlwyd bod y llwybrau hyn yn achosi dryswch mewn rhai achosion o'u cymharu â

llwybrau academaidd. Er enghraifft, cyfeiriwyd at y ffaith mai ychydig o unigolion a ddwedai y gallent symud ymlaen yn glir o'r ysgol hyd at brentisiaeth gradd (e.e. yn y sector cyhoeddus) heb ganlyn llwybr a oedd weithiau'n aneglur.

Roedd galw hefyd ymhlith gwahanol fathau o randdeiliaid am drefniadau cyflwyno ac asesu mwy hyblyg, er enghraifft unedau modiwlaidd/pentyradwy, dysgu cyfunol, a hyblygrwydd o ran dechrau a hyd prentisiaethau.

Dyma welliannau ychwanegol a awgrymwyd yn gysylltiedig â chyflwyno a dilyniant:

- Cyllid cynaliadwy, aml-flwydd (a grybwyllwyd ymhlith cymysgedd o wahanol fathau o randdeiliaid) a oedd yn gysylltiedig â gallu cynllunio ymlaen llaw yn fwy effeithiol, buddsoddi mewn staff ac adnoddau, ac ymateb yn fwy effeithiol i anghenion economaidd ac anghenion o ran sgiliau. Credwyd hefyd fod cyllid sefydlog yn helpu'r system i ymdopi ag amrywiadau economaidd, costau cynyddol, a newid i'r galw, gan sicrhau bod cyfleoedd am brentisiaeth yn parhau i fod ar gael ac yn hygyrch. Yn ogystal â hyn, cyfeiriwyd at y modd yr oedd cyllid sefydlog yn hanfodol ar gyfer datblygu llwybrau newydd, cefnogi grwpiau tangynrychioledig, a galluogi darparwyr i arloesi wrth ddarparu a chefnogi
- Darparwyr yn gallu teilwra darpariaeth fframweithiau i gyd-fynd â dysgwyr mewn modd hyblyg
- Pontio gwell o'r ysgol i brentisiaeth ac o brentisiaeth i gyflogaeth neu ddysgu pellach

### Ymgysylltiad a chapasiti cyflogwyr

Cydnabuwyd yn eang fod ymgysylltiad cyflogwyr yn hanfodol er llwyddiant prentisiaethau, ac er mwyn i'r dysgwr brofi taith gadarnhaol. Fodd bynnag, adroddodd ychydig o randdeiliaid y gallai prinder staff a blaenoriaethau cystadleuol o fewn cyflogwyr arwain at ddatblygiad prentisiaid llai boddhaol. Roedd tybiaeth hefyd fod cyflogwyr weithiau'n amharod i ryddhau prentisiaid i ddysgu (e.e. mewn iechyd a gofal cymdeithasol); ac y gellid bod disgwyl i brentisiaid gwblhau'r dysgu yn eu hamser eu hunain.

### Cymorth i ddysgwyr

Roedd rhai awgrymiadau ynghylch gwella taith y dysgwr, a grybwyllwyd gan gymysgedd o wahanol randdeiliaid, yn canolbwyntio ar gymorth i ddysgwyr. Yn rhan o hyn, nododd ychydig o randdeiliaid y gallai dysgwyr wynebu cyfnodau hir heb gyswllt â darparydd, a bod ansawdd profiad y dysgwr yn amrywio yn dibynnu ar y darparydd a'r cyflogwr, yn enwedig o ran cefnogaeth fugeiliol. Roedd y gwelliannau a awgrymwyd o ran cymorth i ddysgwyr yn cynnwys y canlynol:

- Dylai cymorth i ddysgwyr ddechrau cyn gynted â phosibl. Mynegwyd bod angen mwy o bwyslais ar agweddau ac ymddygiadau priodol yn y gweithle, a bod angen arweiniad ar ddysgwyr iau ynghylch sut i ymddwyn yn y gweithle
- Sicrhau mentora effeithiol a pharhaus, cefnogaeth fugeiliol ac adolygiad rheolaidd drwy gydol y daith brentisiaeth
- Datblygu safon fentora i gefnogi prentisiaid yn effeithiol - nid oedd mentora o reidrwydd yn rôl naturiol i weithiwr profiadol
- Datblygu mwy o rwydweithiau cymorth, fel grwpiau cymheiriaid neu fforymau ar gyfer prentisiaid, er mwyn helpu i leihau unigedd a rhoi cymorth y naill i'r llall, yn enwedig i'r rhai sydd yr unig brentis yn eu gweithle neu sydd mewn ardaloedd gwledig.

Cydnabod dysgu blaenorol
Yn gysylltiedig â'r thema hyblygrwydd, tynnodd cymysgedd o randdeiliaid sylw at yr angen am gynlluniau dysgu wedi'u personoli'n wirioneddol, sy'n cydnabod dysgu blaenorol ac yn teilwra cymwysterau i rolau swydd. Yn ôl y sôn, byddai hyn yn caniatáu hyblygrwydd ac yn lleihau sefyllfaoedd lle byddai dysgwyr yn ailfodloni gofynion ar gyfer sgiliau yr oedd ganddynt eisoes.

## 5.2 Pa ganlyniadau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer prentisiaid (e.e. cyflogaeth gynaliadwy, cymwysterau), a sut y gellir mesur a chynorthwyo'r rhain yn effeithiol?

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y themâu canlynol wrth ystyried pa ganlyniadau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer prentisiaid a sut y gellid eu mesur yn effeithiol.

Cyflogaeth gynaliadwy
Byddai amrywiaeth o randdeiliaid yn cyfeirio'n rheolaidd at gyflogaeth barhaus/gynaliadwy fel prif ganlyniad i brentisiaid. Roedd awgrymiadau ar gyfer cefnogi'r canlyniad hwn yn cynnwys partneriaethau â chyflogwyr, ôl-ofal dilynol, mentora, rhwydweithiau cyn-fyfyrwyr, a chynllunio'r gweithlu i sicrhau cyflogadwyedd hirdymor.

Roedd y dull a gynigiwyd o fesur y canlyniad hwn yn cynnwys olrhain cyrchfannau a statws cyflogaeth ar gyfnodau penodol, ffigurau cadw staff, a dilyniant i 'rolau sylweddol'. Cafodd boddhad dysgwyr a chyflogwyr a datblygiad cyflog eu crybwyll fel mesuriadau eraill posibl.

Yn achlysurol byddai galw am fwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae 'cyflogaeth gynaliadwy' yn ei olygu yng nghyd-destun prentisiaethau, er enghraifft lle caiff swyddi eu cyllido drwy gontractau byrdymor.

### Cymwysterau cydnabyddedig / a reoleiddir

Teimlai llawer o randdeiliaid hefyd fod ennill cymwysterau cydnabyddedig a reoleiddir yn flaenoriaeth allweddol. Mae angen iddynt fod yn gludadwy, wedi'u gwerthfawrogi ar draws sectorau, cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol ac at ddysgu gydol oes, a chyd-fynd â safonau proffesiynol. Cynigiwyd cyfraddau cyrhaeddiad / ardystio ac achrediad proffesiynol a gyflawnwyd fel dulliau posibl o fesur y canlyniad hwn.

### Sgiliau meddal

Canlyniad craidd gofynnol pellach a grybwyllwyd yn rheolaidd gan wahanol fathau o randdeiliaid oedd sgiliau meddal / trosglwyddadwy (e.e. cyfathrebu, gwaith tîm, datrys problemau, llythrennedd digidol, arweinyddiaeth). Gellid mesur hyn drwy arolygon dysgwyr / cyflogwyr neu gymeradwyaeth cymhwyso gan weithwyr proffesiynol sy'n ymarfer. Gallai sgiliau Cymraeg fod yn rhan o'r flaenoriaeth hon, yn ôl rhai, gydag awgrym i'w holrhain drwy'r Cod i Ddisgrifio Gallu yn y Gymraeg[2].

Yn ogystal â hynny, gwnaeth nifer o randdeiliaid sylwadau y dylai prentisiaethau gefnogi nid yn unig ganlyniadau cymhwysedd technegol ond hefyd twf personol, hyder a lles. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, rhagwelwyd y byddai angen cyngor ac arweiniad cychwynnol effeithiol, mentora ac adolygu cyson drwy gydol y Rhaglen, ac ymgysylltu parhaus â chyflogwyr.

### Mesurau cyfun

Y teimlad cyffredinol oedd bod angen dull mwy cyfannol o fesur, gan gyfuno data meintiol ag adborth ansoddol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cwblhau / cwblhau'n brydlon, cyflogaeth gynaliadwy, dilyniant, boddhad dysgwr / cyflogwr, ennill cymhwysedd, parodrwydd am waith a'r effaith ar yr economi. Awgrymwyd yn achlysurol y gallai'r canlynol gefnogi'r broses: cyfeirnodau unigryw ar draws setiau data addysg / cyflogaeth, gwella ymweliadau cyswllt ac adrodd mewnwelediadau, a dangosfyrddau data sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar gyfer niferoedd ymrestru, cadw, cwblhau a chyrchfannau.

---

[2] Mae hyn yn cyfeirio at god statudol sy'n cael ei ddatblygu gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Ei bwrpas yw darparu fframwaith manwl, cyffredin er mwyn disgrifio gwahanol lefelau o allu yn y Gymraeg. Bwriedir iddo helpu defnyddwyr, fel sefydliadau addysgol, cyflogwyr, a chyrff llywodraethol, i ddisgrifio a mesur hyfedredd unigolyn yn y Gymraeg yn gyson.

Yn rhan o'r cyfuniadau hyn, dywedodd ambell randdeiliad y gellid defnyddio dull manylach o fesur canlyniadau, sy'n rhoi cyfrif am ffactorau economaidd-gymdeithasol, gwahaniaethau rhanbarthol a'r pellter a deithiwyd gan y dysgwr.

Cydraddoldeb a chynhwysiant

Canlyniad pellach a ystyriwyd yn bwysig gan gymysgedd o wahanol randdeiliaid oedd cydraddoldeb ar draws grwpiau tangynrychioledig, cefnogaeth benodol ar gyfer ADY, a dadgyfuno data yn ôl nodweddion gwarchodedig a gradd gymdeithasol.

## 5.3 Sut y gallwn ni ddenu mwy o brentisiaid, a/neu garfan ehangach o brentisiaid i'r rhaglen, waeth beth fo'u cefndir neu eu man cychwyn?

Cyfathrebu gwell a CIAG

Yn rheolaidd, roedd cymysgedd o wahanol randdeiliaid yn tynnu sylw at yr angen am ganllawiau cliriach, mwy cyson a diduedd ynghylch rhaglenni prentisiaeth a'u manteision, yn enwedig gan yr ysgolion. Roedd awgrymiadau pellach a wnaed yn cynnwys y canlynol:

- Targedu marchnata yn well, yn enwedig drwy'r cyfryngau cymdeithasol, i addysgu dysgwyr ynghylch ystyr prentisiaethau a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig (gweler pennod 9 am y safbwynt ynghylch cynhwysiant)
- Arweiniad cynharach ar yrfaoedd, yn ddelfrydol cyn troi'n 16 oed
- Uwchsgilio athrawon a chynghorwyr gyrfa i wella ymwybyddiaeth a chyfeirio pobl
- Hyrwyddo prentisiaethau'n well fel dewisiadau eraill posibl yn lle Safon Uwch a phrifysgol, gyda llwybrau dilyniant clir - dylid rhannu astudiaethau achos a straeon am lwyddiant yn fwy effeithiol, er enghraifft drwy gael prentisiaid presennol neu flaenorol i ymweld ag ysgolion
- Dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwybodaeth ac arweiniad, sy'n cynnwys sefydliadau fel y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru. Cynigiwyd 'siop un stop' ar gyfer yr holl wybodaeth, yr holl arweiniad a'r swyddi gwag yn gysylltiedig â phrentisiaethau fel ffordd o gynnig mynediad symlach i ddysgwyr
- Deunyddiau hyrwyddo mwy deniadol gyda iaith syml - gallai'r rhain gynnwys ffeithluniau i ddangos teithiau prentisiaeth a llwybrau gyrfa
- Gallai mwy o dargedu drwy gydol y flwyddyn helpu i godi ymwybyddiaeth ac ystyriaeth, yn hytrach na'r ffocws ar gyfathrebu ar adegau penodol o'r flwyddyn.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi dealltwriaeth dysgwyr, darparwyr a chyflogwyr o'r llwybrau dilyniant o'r cymwysterau TAAU newydd (i'w cyflwyno o 2027).

### Mynd i'r afael â materion cydraddoldeb parch

Thema a gododd dro ar ôl tro ymhlith gwahanol fathau o randdeiliaid oedd yr angen i fynd i'r afael â'r canfyddiad nad oedd yr un parch yn cael ei roi i gymwysterau galwedigaethol â chymwysterau academaidd. Argymhellwyd y canlynol:

- Dull cydgysylltiedig sy'n cynnwys addysg, llywodraeth a diwydiant i fynd i'r afael â'r mater systemig hwn
- CIAG cychwynnol gwell yng nghyfnodau addysg gynradd ac uwchradd
- Rhaglenni a modelau cyflwyno mwy hyblyg a fyddai'n ddeniadol i fwy o gynulleidfaoedd yn ogystal â sefydlu cydraddoldeb parch â modelau addysg eraill
- Archwilio 'brand' prentisiaethau a mynd i'r afael ag unrhyw stigma cysylltiedig
- Dylid dathlu cymwysterau galwedigaethol yn fwy amlwg i leihau stigma a hyrwyddo cydraddoldeb â llwybrau academaidd traddodiadol.

# 6. Cyflogwyr / diwydiant

Ffocws y bennod hon yw annog cyflogwyr (yn enwedig busnesau bach a chanolig) i gynnig prentisiaethau, eu cynnwys yn y broses o ddylunio, cyflwyno a gwerthuso a sut orau i'w cefnogi, yn ogystal â chefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol a chynllunio sgiliau sy'n seiliedig ar le.

Dylid nodi mai prin oedd y sylwadau a gafwyd yn uniongyrchol gan gyflogwyr yn y cam hwn o'r broses ymgynghori. Mae Medr yn cymryd camau i sicrhau bod llais cyflogwyr yn cael ei gofnodi drwy weithgarwch ymgynghori ar wahân, wedi'i gynllunio gyda phartneriaid.

## 6.1 Sut y gallwn ni ehangu nifer ac ystod y cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau, yn enwedig busnesau bach a chanolig?

Gwella dealltwriaeth ac arweiniad i gyflogwyr - a hyrwyddo manteision
Cyflwynwyd amrywiaeth o awgrymiadau ar draws gwahanol fathau o randdeiliaid i wella dealltwriaeth ac arweiniad i ddarpar gyflogwyr, yn ogystal â sut i'w darbwyllo i ymgysylltu:

*Cyfathrebu clir, syml, wedi'i dargedu*

- Cyfathrebu'n gliriach ac yn symlach am brentisiaethau – eglurodd un cyflogwr y modd y bu'n rhaid iddo 'balu am wybodaeth' ar hyn o bryd, gan fod cymaint o wybodaeth ar gael; datblygu arweiniad penodol i sectorau

*Manteision a newid canfyddiadau*

- Sicrhau bod manteision prentisiaethau yn cael sylw amlwg wrth gyfathrebu, gan gynnwys o ran uwchsgilio staff presennol, yr agwedd pob oed, a rhannu hanesion o lwyddiant a gwybodaeth glir â chyflogwyr am ddisgwyliadau a manteision
- Newid meddylfryd cyflogwyr fel bod prentisiaethau'n cael eu gweld fel llwybr dilys a gwerthfawr tuag at gyflogaeth fedrus a datblygiad gyrfaol
- Amlygu cymhellion a chymorth ariannol sydd ar gael a'r camau sy'n cael eu cymryd i symleiddio prosesau (gweler isod)

*Gwybodaeth ganolog / hygyrch*

- Datblygu un 'siop un stop' ganolog neu borth digidol ar gyfer cyflogwyr, gan ddarparu'r holl ganllawiau (gan gynnwys am gyllid a'r broses brentisiaeth o'r diddordeb cychwynnol hyd at weithredu), templedi, cyfrifoldebau cyfreithiol, ac adnoddau sydd eu hangen cyn ac yn ystod y daith brentisiaeth. Gallai hyn hefyd

gynnwys datblygu canllawiau safonol i gyflogwyr ar y cyd ar draws darparwyr, Busnes Cymru, a sefydliadau cysylltiedig i sicrhau cysondeb a lleihau dryswch

- Cyflwyno cydlynwyr prentisiaethau rhanbarthol a allai ddarparu cefnogaeth leol er mwyn helpu busnesau i lywio'r broses yn fwy effeithlon
- Sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol, yn rhydd o jargon, yn gryno, ac wedi'i theilwra i wahanol sectorau ac i fusnesau o wahanol feintiau.

### Cynnig cymhellion

Teimlai rhai rhanddeiliaid o wahanol fathau nad oedd digon o gymhellion ariannol i annog ymgysylltiad â busnesau bach a chanolig, ac y gallai busnesau bach ei chael hi'n anodd gweld yr enillion ar eu buddsoddiad. Codwyd pryderon hefyd am ddysgwyr sy'n rhoi'r gorau iddi ac am eu cadw yn dilyn prentisiaeth.

Roedd rhanddeiliaid felly'n mynegi'n gryf y byddai cymhellion o gymorth i annog mwy o gyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i ystyried cymryd prentis, er enghraifft:

- Cynnig cymhellion fel cymorthdaliadau cyflog, grantiau, bonysau cychwyn neu ostyngiadau Yswiriant Gwladol ar gyfer grwpiau oedran penodol neu sectorau blaenoriaeth i ysgogi'r galw gan sicrhau cynaliadwyedd ar yr un pryd.
- Cynnig cymhellion ychwanegol ar gyfer blwyddyn gyntaf neu ail flwyddyn prentisiaethau ifanc a chymhellion ariannol i gyflogwyr a dysgwyr er mwyn annog dilyniant, yn enwedig o Lefel 2
- Datblygu cronfa prentisiaethau bwrpasol sy'n cwmpasu cymorthdaliadau cyflog, hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, ac amser mentora
- Mynd i'r afael â'r rhwystrau canfyddedig i hawlio cymorthdaliadau cyflog, fel diffyg ymwybyddiaeth, rhwystrau gweinyddol, a'r canfyddiad nad yw cymhellion yn gwrthbwyso'r costau na'r risgiau'n llawn
- Archwilio sut i roi cefnogaeth ariannol well i gyflogwyr sy'n cyflogi prentis am bedair blynedd, ac ystyried nad yw rhai'n sylweddoli bod y cyfnod ariannu yn fyrrach
- Cefnogi busnesau bach a chanolig i roi cymhellion i brentisiaid aros gyda'r cyflogwr ar ôl cwblhau'r rhaglen
- Ystyried cymhellion nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog (e.e. grantiau offer, credydau treth).

### Sut i gyrraedd cyflogwyr

Cynigiodd rhanddeiliaid hefyd amrywiaeth o awgrymiadau er mwyn cyrraedd ac ymgysylltu â chyflogwyr, gan gynnwys y canlynol:

- Hysbysebu ledled Cymru a chychwyn gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu y tu hwnt i ymgyngoriadau agored i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yn enwedig

ymhlith busnesau bach a chanolig a microfusnesau gwledig – cwrdd â nhw yn eu gweithleoedd
- Creu sianeli cyfathrebu cliriach a gwahanol, gyda sefydliadau cymorth busnes yn canolbwyntio ar wybodaeth i gyflogwyr ac yn cysylltu trafodaethau am brentisiaethau â materion datblygu busnes ehangach
- Cynnal arolygon drwy ddarparwyr, cyrff diwydiant neu randdeiliaid eraill fel cyfryngwyr i gynyddu ymateb cyflogwyr a chyrraedd busnesau bach a chanolig yn fwy effeithiol
- Meithrin perthnasoedd cryf drwy fyrddau cynghori cyflogwyr a rhwydweithio
- Creu rolau neu bersonél pwrpasol i helpu cyflogwyr, sector wrth sector, i ddeall manteision prentisiaethau ac addasu arferion recriwtio
- Cynnwys cynrychiolwyr Medr mewn sgyrsiau â darparwyr, cyflogwyr a chymdeithasau masnach i godi eu bri a'u pwysigrwydd
- Defnyddio argymhellion personol ac argymhellion gan gymheiriaid, oherwydd dywedir bod busnesau bach yn fwy tebygol o ymgysylltu os ydynt yn clywed am storïau positif gan fusnesau eraill; ymgysylltu â chyn-brentisiaid i siarad â chyflogwyr am fanteision prentisiaethau.

## Cefnogi cyflogwyr sy'n cyflogi prentisiaid

*Lleihau'r baich ar gyflogwyr a chynyddu cefnogaeth barhaus*
Roedd cred gyffredinol ymhlith pob math o randdeiliaid fod busnesau bach a chanolig yn ystyried bod prentisiaethau'n gymhleth, yn anodd eu llywio ac yn llyncu adnoddau. Roedd y rhwystrau a nodwyd i fynediad yn cynnwys cael hyd i ddarparwyr hyfforddiant addas, recriwtio prentisiaid addas, llywio mecanweithiau ariannu cymhleth, y baich gweinyddol / y gwaith papur, gofynion cydymffurfio, cylchoedd ariannu a oedd yn ymddangos fel pe baent yn ffafrio cyflogwyr mawr, a'r aflonyddwch a achosir pan fydd prentisiaid yn treulio amser i ffwrdd yn cwblhau astudiaethau craidd.
Roedd yr awgrymiadau er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn cynnwys y canlynol:
- Datblygu system ddigidol symlach, neu un pwynt cyswllt (e.e. cynghorydd enwebedig o'r darparydd neu hwb rhanbarthol) i arwain busnesau bach a chanolig drwy brosesau ymsefydlu, cydymffurfio ac ariannu, ac i gynnig cefnogaeth reolaidd drwy alw heibio am sgwrs a datrys problemau
- Datblygu 'Siarter / Llawlyfr Cyflogwr' cynhwysfawr sy'n rhoi amlinelliad clir o rolau, cyfrifoldebau, ymrwymiadau amser, a chanlyniadau disgwyliedig yn sgil yr hyfforddiant a'r mentora yn y gwaith
- Datblygu adnoddau cymorth canolog a modelau broceru ar gyfer busnesau bach a chanolig

- Darparu pecynnau cymorth a thempledi ar gyfer ymsefydlu, cynlluniau dysgu, i gofnodi hyfforddiant yn y gwaith, ac olrhain sgiliau er mwyn lleihau'r baich gweinyddol
- Rhoi diweddariadau rheolaidd, strwythuredig ar gynnydd, presenoldeb a cherrig milltir prentisiaid drwy ddangosfyrddau digidol neu gyfarfodydd wedi'u hamserlennu; a chynnig amserlenni clir ar gyfer adolygiadau, asesiadau a hyfforddiant
- Sicrhau cysondeb o ran ansawdd cyfathrebu a hyfforddiant gan ddarparwyr hyfforddiant i gyflogwyr; adroddodd ambell gyflogwr fod hyn yn gallu amrywio
- Sicrhau bod systemau digidol yn hawdd eu defnyddio ac yn gyfredol
- Cyflwyno ardystiad anrhydeddus i gydnabod cyflogwyr sy'n ymroi i gefnogi prentisiaethau, yn debyg i Fuddsoddwyr mewn Pobl. Tynnwyd sylw at Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau fel cyfle hyrwyddo allweddol y gellid manteisio'n well arno

*Mentora, cefnogaeth gan gymheiriaid, a rhwydweithio*

Yn aml, byddai rhanddeiliaid yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyfforddiant mentoriaid a chefnogaeth gan gymheiriaid, yn enwedig ar gyfer busnesau bach a chanolig. Roedd awgrymiadau penodol yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu cynlluniau cyfeillio neu fentora a fyddai'n cynyddu hyder cyflogwyr ac yn gwella cyfraddau cadw prentisiaid. Gellid cynnig hyfforddiant byr, hygyrch i fentoriaid a goruchwylwyr yn y gweithle, gan gwmpasu pynciau fel gosod disgwyliadau, adborth a chefnogi llesiant
- Creu rhwydweithiau neu garfannau ar gyfer busnesau bach a chanolig, gan gynnwys grwpiau cymheiriaid neu lwyfannau digidol (e.e. grwpiau WhatsApp) er mwyn rhannu arfer gorau, profiadau a chyngor

*Gwella hyblygrwydd*

Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid hefyd y byddai angen mwy o hyblygrwydd o ran hyd a chynnwys prentisiaethau er mwyn cynyddu cyfranogiad cyflogwyr. Gallai hyn gynnwys:

- Caniatáu i gyflogwyr ddewis elfennau craidd a dewisol y fframwaith, gyda rhannau dewisol yn cael eu hariannu ar wahân i leihau costau a beichiau o ran adnoddau
- Defnyddio mwy o brentisiaethau rhan-amser, modiwlaidd, neu brentisiaethau a rennir, gan ganiatáu i fusnesau bach a chanolig gymryd rhan heb orlwytho staff
- Hyblygrwydd o ran cynnwys, cyflwyno ac asesu i gyd-fynd ag arferion busnes lleol ac anghenion y sector
- Dylai cyflogwyr a darparwyr gael mwy o ymreolaeth i deilwra'r ddarpariaeth o fewn llwybrau, gyda chynrychiolwyr y sector yn cael eu hystyried yn arbenigwyr wrth ddatblygu llwybrau.

## 6.2 Sut y gall cyflogwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglen brentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith?

Cyd-ddylunio a datblygu fframweithiau

Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau ymhlith rhanddeiliaid er mwyn cynnwys cyflogwyr yn effeithiol wrth gyd-ddylunio a datblygu fframweithiau, gan gynnwys y canlynol:

*Sefydlu a chryfhau byrddau cynghori dan arweiniad cyflogwyr, grwpiau sector, a phaneli cyd-ddylunio*

- Cynnwys cyflogwyr fel partneriaid dilys, nid ymgyngoreion yn unig, wrth lunio fframweithiau prentisiaeth. Yn aml, byddai rhanddeiliaid yn dadlau o blaid creu neu gryfhau byrddau sector, grwpiau cynghori a phaneli llywio dan arweiniad cyflogwyr ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb rhwng polisi a darpariaeth weithredol
- Archwilio'r gwersi a ddysgwyd gan y grwpiau Trailblazer Seisnig [3]fel bod modd cynnwys cyflogwyr o'r cychwyn cyntaf wrth ddylunio'r hyn sydd ei angen arnynt i gynnal eu gweithlu a diwydiannau

*Ymgorffori dolenni adborth rheolaidd strwythuredig*

- Datblygu ymgysylltiad parhaus â chyflogwyr drwy fecanweithiau adborth rheolaidd, arolygon blynyddol, a phrosesau adolygu parhaus - defnyddio offer digidol fel ffordd o gasglu adborth amser real a phrofiadau dilys cyflogwyr, gan gefnogi gwelliant parhaus
- Dylunio system neu bwynt cyswllt pwrpasol, wedi'i hyrwyddo'n dda, i unigolion a sefydliadau allu rhoi adborth neu awgrymu diweddariadau i Medr ar gyfer fframweithiau

*Defnyddio cyfryngwyr a chyrff cynrychioliadol i gael mewnbwn strwythuredig*

- Manteisio ar sefydliadau fel cymdeithasau masnach / cyrff sector (e.e. y Ffederasiwn Busnesau Bach), Siambr Fasnach, a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gydlynu mewnbwn gan gyflogwyr a sicrhau perthnasedd i bob sector. Ystyriwyd bod y sefydliadau cyfryngol hyn yn chwarae rhan werthfawr wrth bontio'r bwlch rhwng darparwyr a busnesau llai
- Asesu manteision datblygu cynllun peilot lle mae corff/cyrff masnach yn cefnogi casglu gwybodaeth am gyflogwyr

[3] Gweler https://www.gov.uk/guidance/group-of-persons-trailblazer-groups

*Sicrhau bod y broses ddylunio yn dryloyw a gweladwy*

- Cyfathrebu'n well ynghylch sut y gall cyflogwyr gymryd rhan, a gwneud y broses o ddylunio fframweithiau yn fwy gweladwy a hygyrch
- Cynnig cydnabyddiaeth ffurfiol am gyfranogiad cyflogwyr.

Cynrychiolaeth gynhwysol a chymesur

Yn aml, byddai rhanddeiliaid yn cynghori y dylai mentrau i ymgysylltu â chyflogwyr sicrhau eu bod yn gynrychioliadol o'r sbectrwm lawn o gyflogwyr. O ran hyn, roedd enghreifftiau o welliannau a awgrymwyd gan randdeiliaid yn cynnwys:

- Creu grwpiau cynghori ac ymgyngoriadau sydd wedi'u strwythuro i adlewyrchu amrywiaeth y sector, nid y rhai sydd â'r adnoddau neu'r capasiti mwyaf yn unig
- Meithrin cysylltiadau cryfach rhwng busnesau bach a chanolig, darparwyr hyfforddiant, a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu deall a'u diwallu
- Teilwra mecanweithiau ymgysylltu i sectorau (e.e. iechyd, adeiladu, digidol) a rhanbarth, gan ddefnyddio fforymau lleol a chyrff sector i gydlynu mewnbwn
- Cydnabod gallu cyfyngedig busnesau bach a chanolig i gymryd rhan mewn ymgyngoriadau helaeth. Gallai hyn gynnwys rhoi cymorth ariannol neu ymarferol (e.e. amser wedi'i ariannu, prosesau symlach) i alluogi busnesau bach a chanolig i gymryd rhan.
- Ymddiried mewn darparwyr i ddeall a diwallu anghenion cyflogwyr heb orlwytho cyflogwyr â cheisiadau am fewnbwn.

Dilysu a gwerthuso

Cafwyd cefnogaeth i gynnwys cyflogwyr wrth ddilysu datblygiadau i raglenni, adolygu dulliau asesu, a gwerthuso canlyniadau (e.e. parodrwydd dysgwyr, dilyniant, a'r effaith ar fusnes).

Cydweithio wrth gyflwyno ac asesu

Roedd nifer o randdeiliaid yn cefnogi'r syniad o fodelau cyd-gyflwyno lle byddai cyflogwyr a darparwyr yn rhannu cyfrifoldeb dros hyfforddi ac asesu. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd o gamau gweithredu yn cynnwys:

- Annog darparwyr i ymweld â gweithleoedd yn amlach ac addasu'r ddarpariaeth i brosiectau byw o fewn rôl y swydd
- Cynnwys cyflogwyr wrth lunio tasgau asesu a rhoi adborth ar gymhwysedd dysgwyr
- Ariannu hyfforddiant a chymorth i fentoriaid er mwyn galluogi cyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i gymryd rhan yn hyderus yn y broses gyflwyno a gwerthuso.

## 6.3 Sut y gellir cefnogi busnesau'n well wrth weithio gyda phrentis? Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i gyflogwyr, cyn cyflogi prentis ac yn ystod taith ddysgu'r prentis?

Mae'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o dan y cwestiwn ymgynghori hwn wedi cael eu trafod yn y bennod hon. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi canllawiau cliriach, symleiddio'r broses a lleihau'r baich gweinyddol, cynnig cymhellion ariannol a mwy o ymwneud â dylunio, gwerthuso, arolygon a dolenni adborth.

## 6.4 Sut y gallwn ni sicrhau rhaglen sy'n cefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol a chynllunio sgiliau sy'n seiliedig ar le?

Drwy archwilio sut y bydd y Rhaglen yn cefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol a chynllunio sgiliau yn seiliedig ar le, gellir sicrhau bod prentisiaethau wedi'u targedu at anghenion sgiliau cyflogwyr lleol, nid cyfartaleddau cenedlaethol yn unig. Bydd hyn yn sicrhau bod y Rhaglen yn canolbwyntio ar gynhyrchiant a thwf busnes ym mhob ardal, ac yn helpu fframweithiau i addasu i ddiwydiannau sy'n dod i'r amlwg a blaenoriaethau rhanbarthol. Mae hyn yn cefnogi cyllid a darpariaeth sy'n berthnasol, yn amserol ac yn effeithiol i gymunedau ledled Cymru.

### Gwybodaeth gadarn a manwl am y farchnad lafur

Roedd rhai rhanddeiliaid o wahanol fathau yn argymell y dylid gwneud defnydd gwell a mwy effeithiol o wybodaeth am y farchnad lafur fel sylfaen ar gyfer cynllunio effeithiol. Rhoddir enghreifftiau o gynigion isod:

- Datblygu system genedlaethol ar gyfer casglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth am y farchnad lafur gyfredol, gan gynnwys data meintiol a mewnwelediadau ansoddol gan gyflogwyr a darparwyr
- Gwneud gwybodaeth am y farchnad lafur yn sail ar gyfer comisiynu, ariannu ac addasu darpariaeth prentisiaethau ar lefel leol a rhanbarthol
- Adolygu canlyniadau rhanbarthol yn rheolaidd ac addasu'r ddarpariaeth mewn ymateb i dueddiadau sy'n newid o ran yr economi a'r gweithlu.

### Rhaglen o ddyluniad hyblyg

Fel y trafodwyd mewn rhan arall o'r adroddiad, galwyd am raglen o ddyluniad mwy hyblyg, a hynny i gefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol yn yr achos hwn.

Dywedwyd y byddai, er enghraifft, yn caniatáu creu llwybrau newydd neu bwrpasol ar gyfer diwydiannau sy'n dod i'r amlwg neu alwedigaethau y ceir galw uchel amdanynt o fewn y rhanbarth. Gallai olygu hwyluso comisiynu lleol drwy rymuso rhanbarthau i gomisiynu neu addasu darpariaeth mewn ymateb i'w gwybodaeth eu hunain am y farchnad lafur.

### Cydweithio traws-sector a rhanbarthol gyda'r sector cyhoeddus

Teimlai rhai rhanddeiliaid y byddai cydweithio traws-sector a rhanbarthol yn gwella'r ddarpariaeth. Dyma'r enghreifftiau a roddwyd:

- Adeiladu partneriaethau drwy ddod â darparwyr y sector cyhoeddus, y sector preifat, AB / AU, a chyrff diwydiant ynghyd i gydlynu darpariaeth hyfforddiant dysgu seiliedig ar waith ac osgoi dyblygu
- Ymgysylltu ag awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i sicrhau bod gwybodaeth leol a phrofiad byw yn llywio dyluniad rhaglenni, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig
- Cydnabod awdurdodau lleol fel cyflogwyr angori, gan gynnig prentisiaethau sy'n cefnogi datblygiad cymunedol ac yn gosod y safonau ar gyfer arferion rhanbarthol.

### Cwmpas daearyddol a sectoraidd

Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at welliannau yr oeddent am eu gweld a oedd yn ymwneud â chwmpas daearyddol a sectoraidd:

- Sicrhau bod darpariaeth ar gael ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol, ac nid mewn ardaloedd o dwf uniongyrchol yn unig.
- Rhoi cymorth wedi'i dargedu ar gyfer sectorau fel treftadaeth, twristiaeth, a chreu arwyddion, lle gall nifer y cyflogwyr fod yn fach ond gall yr effaith ranbarthol fod yn sylweddol
- Hyrwyddo modelau cyflwyno lleol er enghraifft drwy ddefnyddio unedau hyfforddi symudol, dysgu cyfunol, a darparwyr lleol o faint llai i gyrraedd pob cymuned.

### Llywodraethu ac atebolrwydd

Ar adegau, cynghorodd rhanddeiliaid fod angen trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn i gefnogi datblygu economaidd rhanbarthol:

- Gosod strwythurau atebolrwydd clir e.e. diffinio rolau Medr, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, darparwyr, a chyflogwyr o ran cynllunio a darpariaeth ranbarthol
- Monitro ac adrodd ar ganlyniadau e.e. olrhain niferoedd sy'n dechrau ac yn cwblhau prentisiaethau, a chanlyniadau cyflogaeth ar raddfa ranbarthol, a sicrhau bod data ar gael i'r cyhoedd

- Sicrhau tegwch a chysondeb drwy ddefnyddio prosesau tryloyw i warantu mynediad teg a safonau cyson ar draws rhanbarthau.

# 7. Darparwyr dysgu

Mae'r bennod hon trafod adborth ar ddau gwestiwn am ymgysylltu â darparwyr, cryfderau'r darparwyr ac unrhyw agweddau i'w cryfhau.

## 7.1 Sut y gall darparwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglenni prentisiaeth er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith?

Ymatebodd cymysgedd o fathau o randdeiliaid i'r cwestiwn hwn. Teimlai rhai fod ymgysylltiad darparwyr eisoes yn gryf, ond y gallai fod lle i'w wella. Mae rhai pwyntiau a ddaeth i'r amlwg wedi'u trafod yn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Rhoddir y prif themâu isod.

Cyd-ddylunio'n gynnar ac yn barhaus â darparwyr
O ran sut y gall darparwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni prentisiaeth, cadarnhaodd rhanddeiliaid gan gynnwys darparwyr y dylai darparwyr o bob math fod yn bartneriaid strategol o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cynnwys ffurfioli ymgynghori â darparwyr a chydweithio'n barhaus fel bod rhaglenni'n hyblyg, yn gydlynol, ac yn cyd-fynd ag anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r rhanbarth. Galwyd am wrando'n astud ar ddarparwyr sy'n gweithio'n agos gyda busnesau bach a microfusnesau er mwyn sicrhau bod eu hanghenion a'u heriau'n cael gwrandawiad wrth datblygu rhaglenni prentisiaeth.

Fforymau strwythuredig a mecanweithiau cydweithio
Awgrym a godwyd yn rheolaidd, gan gynnwys ymhlith darparwyr, oedd defnyddio fforymau strategol cydgysylltiedig. Gallai'r rhain gynnwys byrddau crwn a hwylusir gan Bartneriaethau Sgiliau Sector a grwpiau rhanddeiliaid amlbroffesiwn (e.e. yn cynnwys dysgwyr, busnesau bach a chanolig, ac undebau llafur).

Dolenni adborth, gwerthuso a rhannu data
Awgrymodd rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr, yn rheolaidd y byddai dolenni cyfathrebu mwy mynych, ffurfiol, rheolaidd a thryloyw yn helpu darparwyr i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y broses o ddylunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni prentisiaeth. Roedd enghreifftiau o fewn y thema hon i gefnogi ymgysylltiad yn cynnwys gwerthuso parhaus, casglu data mewn modd strwythuredig (e.e. arolwg dysgwyr ledled Cymru), a rhannu gwerthusiadau. Yn ôl darparydd, roedd angen cryfhau dolenni cyfathrebu ffurfiol, rheolaidd rhwng Medr, Cymwysterau Cymru,

Llywodraeth Cymru a darparwyr, er enghraifft i ddysgu o brofiadau'r gorffennol wrth ddylunio prentisiaethau. Gofynnodd un cyflogwr hefyd am archwiliad rheolaidd o drefniadau darparwyr dysgu i gyfathrebu â'r cyflogwr.

## 7.2 Beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen ei gryfhau o safbwynt darparydd?

Ymatebodd cymysgedd o fathau o randdeiliaid i'r cwestiwn hwn. Trafodir nifer o'r pwyntiau a wnaed yn rhannau eraill o'r adroddiad.

### Yr hyn yr ystyrir ei fod yn gweithio'n dda

Y ddwy brif thema a ddaeth i'r amlwg oedd:

- Cydweithrediad a phartneriaethau cryf rhwng darparwyr a chyflogwyr, consortia yn gweithio'n effeithiol gyda Medr a sectorau, ymgysylltiad rhagweithiol, a chyflwyno ymatebol
- Cymorth a chynhwysiant dysgwyr- mentora, gofal bugeiliol, ac ymrwymiad i ehangu cyfranogiad.

Dyma rai o'r pwyntiau cadarnhaol eraill a wnaed:

- Profiad hirhoedlog, trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu cadarn, a dysgu proffesiynol sy'n tanategu safonau cyson
- Mae dysgu cyfunol a hyfforddiant yn y gwaith sydd wedi'i deilwra yn helpu i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr a chyflogwyr
- Uwch arweinwyr yn alinio blaenoriaethau â pholisi ac yn addasu i anghenion sgiliau sy'n dod i'r amlwg (e.e. technolegau gwyrdd, gwyddorau iechyd)
- Darparwyr sy'n cynnig opsiynau cyfrwng Cymraeg i ddiwallu anghenion ieithyddol
- Cyflwyno cymwysterau strwythuredig, sicrhau cydymffurfiaeth â iechyd a diogelwch, a darparu adnoddau AD ar gyfer busnesau bach.

### Yr hyn yr ystyrir y mae angen ei gryfhau

Mynegwyd amrywiaeth o bwyntiau ond roedd rhai â chysylltiad llai uniongyrchol â darparwyr neu hefyd wedi'u cyfleu yn y cwestiwn blaenorol. Y thema fwyaf amlwg a godwyd oedd y canfyddiad bod angen mwy o hyblygrwydd a sefydlogrwydd o ran ariannu, a thrafodir hyn yn gynharach yn yr adroddiad. Roedd awgrymiadau pellach a wnaed ynghylch yr hyn sydd angen ei gryfhau o ran darparwyr yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu'r 'rheol 80% o hyd'[4] – roedd nifer o ddarparwyr yn ystyried bod hyn yn cosbi darparwyr sy'n cyflwyno prentisiaethau mewn modd mwy effeithlon, a hefyd yn achosi annifyrrwch ymhlith dysgwyr fel rhwystr i hyblygrwydd
- Dylai darparwyr gydweithio'n agosach â chyflogwyr i gyflwyno dysgu ar y cyd, gan ymgorffori prosiectau'r gweithle a mewnbwn o'r diwydiant mewn addysgu ffurfiol
- Sicrhau bod darparwyr yn anfon adroddiadau misol at gyflogwyr ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr ar eu taith, pa mor agos yr ydynt at gwblhau, a'u dyddiad cwblhau
- Mae angen i Medr fynnu bod pob darparydd yn gallu dangos ei wybodaeth, ei sgiliau a'i brofiad o weithio gydag oedolion yn ogystal â'r rhai sy'n gadael yr ysgol wrth ddylunio a chyflwyno prentisiaethau, yn enwedig Prentisiaethau Sylfaen
- Cynyddu argaeledd aseswyr pwynt terfynol, symleiddio prosesau dilysu, a chryfhau systemau i gydnabod dysgu blaenorol.
- Buddsoddi yn DPP staff, seilwaith digidol, a chydnabod aseswyr Dysgu Seiliedig ar Waith
- Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a chefnogi ymdrechion i ehangu i sectorau sy'n dod i'r amlwg
- Eglurder ynghylch y model newydd a ariennir drwy grantiau a'r broses ar gyfer cydweithio rhwng gwahanol ddarparwyr (e.e. partneriaethau AU / AB)
- Cysylltiadau cryfach rhwng AB ac AU, a llais mwy cynhwysol i isgontractwyr.

[4] Rhaid i brentisiaid fod yn dysgu am o leiaf 80% o hyd disgwyliedig y rhaglen er mwyn i'r darparydd allu hawlio'r cyllid llawn ar gyfer fframwaith y prentisiaeth. Os bydd prentis yn cwblhau'n gynharach na hyn, bydd y darparydd yn derbyn swm llai o gyllid.

# 8. Y Gymraeg

Mae'r bennod hon yn trafod yr ymatebion i gwestiynau am y Gymraeg. Mae'n cynnwys canfyddiadau rhanddeiliaid ynghylch y rhwystrau sy'n atal mwy o bobl rhag mynychu cyrsiau prentisiaeth Cymraeg ac awgrymiadau'r rhanddeiliaid ynghylch sut y gellid goresgyn y rhwystrau hyn, a sut y gellir ymgorffori sgiliau Cymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth mewn modd mwy ystyrlon.

## 8.1 Rhwystrau i fynediad at brentisiaethau yn Gymraeg

Roedd cydnabyddiaeth bod angen gwneud mwy i annog mwy o ddysgwyr i ddilyn prentisiaethau yn Gymraeg, ac y gellid gwneud mwy i ymgorffori'r Gymraeg yn effeithiol yn y rhaglen brentisiaethau. Fodd bynnag, ystyriwyd bod yr ymrwymiad i ddarpariaeth ddwyieithog yn hanfodol er mwyn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg a sicrhau y gall pob dysgwr ffynnu o fewn rhaglen brentisiaeth gwirioneddol gynhwysol.

Rhwystrau neu heriau sy'n atal pobl rhag manteisio ar y ddarpariaeth
Gofynnwyd i randdeiliaid beth, os o gwbl, oedd yn rhwystro mwy o bobl rhag manteisio ar brentisiaethau Cymraeg a dwyieithog. Rhestrir y prif bwyntiau isod:

- Prinder staff dwyieithog - Un o'r prif heriau a godwyd ymhlith rhanddeiliaid oedd y prinder a adroddwyd o ddarlithwyr, aseswyr, hyfforddwyr a thiwtoriaid dwyieithog, yn enwedig mewn rhai sectorau. Roedd y prinder hwn o staff yn amharu ar ddarpariaeth ac asesiadau ac yn cyfyngu ar y gallu i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd rhai o'r farn fod recriwtio'n anodd oherwydd diffyg cymhellion a'r anghydraddoldeb rhwng cyflogau diwydiant ac addysg
- Diffyg deunyddiau wedi'u cyfieithu- roedd nifer o ymatebion yn tynnu sylw at ddiffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys deunyddiau addysgu, offer asesu, a llwyfannau digidol. Ystyriwyd bod oedi cyn cyfieithu, neu fylchau yn y deunydd a oedd wedi'i gyfieithu, a diffyg cynnwys sector-benodol, yn rhwystrau mawr.
- Arferion cyflogwyr- roedd rhanddeiliaid yn cydnabod nad oedd llawer o gyflogwyr yn gweithredu'n ddwyieithog. Awgrymodd rhanddeiliaid nad oedd rhai cyflogwyr yn ymwybodol o'r manteision neu nad oedd unrhyw gymhelliant iddynt gefnogi dwyieithrwydd. Roedd hyn yn ei dro yn peri bod dysgwyr yn amharod i gwblhau'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg

- Mae'r galw'n amrywio yn ôl rhanbarth a sector- nododd rhanddeiliaid weithiau fod y galw am ddarpariaeth yn Gymraeg yn isel mewn rhai ardaloedd.Arweiniodd hyn at broblemau ariannu wrth gyflwyno i garfannau bach. Fodd bynnag, casglodd rhai fod  darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn arbennig o berthnasol mewn rhai rhanbarthau ac y dylid felly sicrhau darpariaeth mor ddi-dor ag sy'n bosibl
- Hyder- thema a gododd dro ar ôl tro oedd bod rhai dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn brin o hyder yn eu sgiliau Cymraeg, yn enwedig Cymraeg ysgrifenedig neu eirfa dechnegol. Roedd ychydig o randdeiliaid o'r farn fod hyn yn arbennig o wir yn achos prentisiaid hŷn a oedd wedi gadael addysg Gymraeg ers tro
- Diffyg cyllid- roedd rhai'n teimlo bod angen mwy o gyllid i gynnwys mwy o leoedd prentisiaeth dwyieithog neu i siaradwyr Cymraeg, i uwchsgilio staff fel y gallent gyflwyno cyrsiau'n ddwyieithog, ac i dalu'r gost uchel o gyfieithu adnoddau a chreu adnoddau dwyieithog.
- Baich gweinyddol- soniodd rhai darparwyr a chyflogwyr y gallai gwaith papur, gofynion cydymffurfio ac adrodd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn gymhleth a chymryd llawer o amser. Yn ogystal, gallai cyrff dyfarnu wynebu heriau pan fyddai ychydig o fyfyrwyr yn gofyn am asesiad cyfrwng Cymraeg, ac roedd angen buddsoddiad sylweddol i gynnig cymwysterau yn y Gymraeg
- Canfyddiad nad yw hyn yn berthnasol mewn rhai sectorau- mynegodd ychydig o randdeiliaid diwydiant (yn enwedig mewn peirianneg a gweithgynhyrchu) ei bod hi'n bosibl nad oedd gofynion y Gymraeg yn cyd-fynd ag anghenion busnes, neu y gellid eu gweld fel rhwystr ychwanegol. Yn ogystal â hynny, roedd rhai'n teimlo bod cred ddiwylliannol ymhlith dysgwyr a chyflogwyr fod yn rhaid i unrhyw beth swyddogol fod yn Saesneg, ac mai iaith barhaol y diwydiant yw Saesneg.
- Agweddau- dywedwyd bod rhai prentisiaid a staff oedd yn siarad Cymraeg yn ffafrio Saesneg, ac mae'n bosibl nad oedd dysgwyr eisiau cael eu gwahanu oddi wrth eu cymheiriaid drwy astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Ymwybyddiaeth o lwybrau cyfrwng Cymraeg a'u hamlygrwydd-roedd ychydig o randdeiliaid yn credu nad oedd dysgwyr a chyflogwyr bob amser yn ymwybodol o opsiynau cyfrwng Cymraeg, neu nad oedd y rhain yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol mewn ysgolion ac wrth gael cyngor gyrfaoedd
- Diffyg gwybodaeth ganolog- ar brydiau byddai rhanddeiliaid yn dweud nad oedd platfform canolog i ganfod pwy sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ymhle mae'r ddarpariaeth honno ar gael
- Ecwiti digidol- soniodd nifer fach o randdeiliaid am natur gyfyngedig cyfleusterau dwyieithog ar blatfformau dysgu digidol a bo systemau e-ddysgu yn rhwystr i rai dysgwyr.

## 8.2 Sut y gallwn ni annog mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog yn y gweithle ledled Cymru?

Atebion posibl

*Ymgorffori'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf*: At ei gilydd, roedd rhanddeiliaid yn dadlau'n gryf dros gynnwys cynllunio ar gyfer y Gymraeg o fewn fframweithiau prentisiaeth ac wrth dylunio rhaglenni, nid fel elfen atodol ddewisol, ond fel egwyddor greiddiol. Roedd hyn yn cynnwys gosod disgwyliadau clir ar gyfer cyflwyno ac asesu dwyieithog a sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a Saesneg ar draws yr holl ohebiaeth a deunyddiau. Awgrymodd rhai y dylid gweithredu targedau sector benodol a safonau gofynnol.

*Cynllunio'r gweithlu'n strategol*: Roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw'n rheolaidd at yr angen i gynllunio'n strategol er mwyn mynd i'r afael â phrinder tiwtoriaid, aseswyr a mentoriaid sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig mewn sectorau galwedigaethol. Ystyriwyd bod angen buddsoddi ymhellach er mwyn recriwtio, hyfforddi a chadw staff sy'n siarad Cymraeg. Awgrymodd rhai y dylid ariannu rhaglenni datblygu proffesiynol a chreu cronfa ddata o aseswyr sy'n siarad Cymraeg.

*Meithrin hyder drwy gyfnodau dysgu byr*: dywedodd rhai y gallai ymgorffori cyfnodau dysgu byr yn y Gymraeg o fewn rhaglenni feithrin hyder a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Gallai hyn gynnwys cyrsiau Cymraeg am ddim a chynnwys modiwlau Cymraeg fel elfennau atodol o fewn fframweithiau prentisiaeth. I rai, roedd angen i brentisiaethau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog fod yn opsiwn naturiol a chwbl gyffredin.
Roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn fod angen gwneud mwy i annog prentisiaid i ofyn am gymorth yn y Gymraeg heb stigma.

*Defnydd hyblyg o iaith*: awgrymodd rhai y byddai caniatáu i brentisiaid siarad Cymraeg wrth ryngweithio ar lafar, ond cadw gwaith ysgrifenedig yn Saesneg, o gymorth i greu llwybrau dwyieithog hyblyg. Byddai'r dull hwn yn caniatáu i brentisiaid ddefnyddio elfennau o'r Gymraeg yn seiliedig ar eu hyder a'u sgiliau, yn hytrach na gorfodi dewis llym rhwng Saesneg a'r Gymraeg.

*Deunyddiau dwyieithog*: roedd angen cefnogaeth a buddsoddiad parhaus i dalu costau cyfieithu cymwysterau, creu adnoddau a llwyfannau digidol er mwyn gallu cefnogi sefydliadau fel cyrff dyfarnu yn well yn yr ymdrechion hyn.

*Technoleg ac arloesedd*: argymhelliad arall oedd buddsoddi mewn technoleg, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, i gefnogi dysgu a darpariaeth yn Gymraeg.

*Cynlluniau cymhellion a chydnabyddiaeth cyflogwyr:* roedd rhai'n argymell cefnogaeth a chymhellion wedi'u targedu i gyflogwyr gynnig prentisiaethau dwyieithog, gan gynnwys gwobrau ariannol, dathlu hanesion o lwyddiant yn gysylltiedig â dwyieithrwydd, cynlluniau cydnabod, darparu pecynnau cymorth a hyfforddiant ac arweiniad ar integreiddio'r Gymraeg i arferion y gweithle.

*Dull sy'n seiliedig ar y galw*: i rai, byddai tynnu sylw at fanteision sgiliau Cymraeg o ran busnes yn cynyddu'r galw ymhlith cyflogwyr am brentisiaid sy'n siarad Cymraeg. Disgwylid y byddai annog cyflogwyr i werthfawrogi'r sgiliau hyn yn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n eu defnyddio a'u perthnasedd i ddysgwyr. Yn ogystal â hynny, gellid gwneud ymdrechion pellach er mwyn cynorthwyo i recriwtio pobl sy'n gadael ysgolion cyfrwng Cymraeg i brentisiaethau Cymraeg.

*Monitro ac atebolrwydd*: roedd consensws ymhlith rhanddeiliaid ynghylch yr angen i olrhain a chyhoeddi nifer y bobl sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, y defnydd ohoni a chanlyniadau hynny, gydag adolygiadau rheolaidd ac ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag anghysondebau. Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn dadlau o blaid gwerthuso a mireinio'r ddarpariaeth Gymraeg yn barhaus, ar sail llais y dysgwr ac adborth gan gyflogwyr (e.e. fforymau ymgysylltu ac arolygon cenedlaethol).

*Cymhellion ariannol i ddysgwyr*: nododd rhai rhanddeiliaid fod cymhellion ariannol ar gael i ddysgwyr astudio drwy'r Gymraeg, yn enwedig mewn addysg uwch. Fodd bynnag, tybiwyd nad oedd y rhain bob amser ar gael ar gyfer prentisiaethau y tu allan i addysg uwch.

*Cydweithio*: ychwanegodd ychydig o randdeiliaid y dylai sectorau weithio ar y cyd i lenwi bylchau ymhlith staff ac aseswyr sy'n siarad Cymraeg. Yn ogystal â hynny, ystyriwyd bod cydweithio rhwng darparwyr, Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a chyflogwyr yn hanfodol er mwyn nodi'r galw a rhannu arfer gorau.

*Targedau rhanbarthol*: roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am gael gosod targedau cymesur neu ranbarthol ar gyfer darpariaeth yn Gymraeg, gan adlewyrchu anghenion lleol. Awgrymwyd hefyd y dylai darparwyr dargedu allgymorth at ysgolion cyfrwng Cymraeg.

*Newidiadau agwedd*: credai'r ymatebwyr ei bod hi'n bwysig amlygu manteision bod â gafael ar y Gymraeg ar gyfer gwaith a thwf gyrfaol. Ystyriai rhai fod rhannu enghreifftiau cadarnhaol neu astudiaethau achos yn fuddiol.

*Dull seiliedig ar sectorau*: ystyriwyd bod rhai sectorau, fel iechyd a gofal cymdeithasol a lletygarwch, yn fwy addas ar gyfer darpariaeth yn Gymraeg. Argymhellodd rhai rhanddeiliaid y gallai defnyddio strategaethau wedi'u targedu ar gyfer pob sector felly fod yn fuddiol.

*Deunyddiau asesu hygyrch*: Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at yr angen am gytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol â chyrff dyfarnu i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal mewn amserlenni a safonau asesu. Awgrymwyd hefyd fod angen cyfieithu cwestiynau asesu i Gymraeg hygyrch a oedd yn cyd-fynd â lefelau hyfedredd y dysgwyr.

Sylwadau ychwanegol

- Roedd disgwyl i'r cynnydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ysgogi galw naturiol am ddarpariaeth.
- Mynegodd rhanddeiliaid bryder weithiau y gallai gofynion y Gymraeg dynnu'r sylw oddi wrth ofynion eraill, neu greu rhwystr ychwanegol, yn enwedig lle bo'r galw yn isel neu adnoddau'n brin. Roeddent yn dadlau dros ddarpariaeth leol, sy'n seiliedig ar y galw, ac yn rhybuddio rhag gorfodi gofynion nad ydynt yn adlewyrchu anghenion y diwydiant.
- Roedd ychydig o randdeiliaid yn pryderu ynghylch dychwelyd i fodelau cyllido sy'n seiliedig ar ganrannau'r darpariaeth Gymraeg yn hytrach na normaleiddio ac annog y defnydd o'r  Gymraeg mewn gweithleoedd.

# 9. Prentisiaethau cynhwysol

Mae'r cwestiynau a drafodir yn y bennod hon yn canolbwyntio ar rwystrau i grwpiau tangynrychioledig gymryd rhan mewn prentisiaethau, a dulliau o ddatrys hynny, awgrymiadau am strategaeth recriwtio wedi'i thargedu, a chyllid ar gyfer y rhaglen Prentisiaeth â Chymorth a'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr.

## 9.1 Pa rwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ran cael mynediad at brentisiaethau a llwyddo ynddynt, a sut y gall dyluniad y rhaglen newydd fynd i'r afael â'r heriau hyn ac annog cadw dysgwyr?

Ymwybyddiaeth, canfyddiadau, a bylchau mewn gwybodaeth
Roedd y thema o bennod 5, sef cyfathrebu gwell a CIAG hefyd yn amlwg iawn i grwpiau tangynrychioledig o ran cael mynediad i brentisiaethau a llwyddo ynddynt. Roedd awgrymiadau gan randdeiliaid er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystr hwn, ac nad ydynt wedi'u trafod eisoes ym mhennod 5, yn cynnwys y canlynol:

*Ymgyrchoedd a marchnata cenedlaethol a rhanbarthol*

- Lansio ymgyrchoedd marchnata cynhwysol sy'n defnyddio modelau rôl a llysgenhadon amrywiol i arddangos ehangder y cyfleoedd prentisiaeth waeth beth fo oedran a chefndir y prentis
- Datblygu astudiaethau achos wedi'u teilwra i amlygu straeon llwyddiannus o blith grwpiau tangynrychioledig
- Defnyddio iaith a delweddau cynhwysol ym mhob deunydd a gohebiaeth, ac ystyried termau amgen i ehangu apêl
- Hysbysebu cyfleoedd yn Gymraeg ac mewn ieithoedd lleiafrifol, a thrwy sianelau lleol

*Ymgysylltu â'r gymuned*

- Cydweithio â grwpiau cymunedol, sefydliadau lleol ac asiantaethau arbenigol i sicrhau bod gwaith allgymorth yn sensitif i ddiwylliannau ac yn cyrraedd y cynulleidfaoedd cywir ar yr amser cywir gyda'r CIAG priodol. Gellid hefyd adeiladu partneriaethau ag elusennau, grwpiau ffydd, a gwasanaethau ieuenctid / cymorth (e.e. timau plant sy'n derbyn gofal a thimau cymorth i deuluoedd)

- Ymgysylltu â rhieni / teuluoedd / dylanwadwyr eraill mewn cymunedau difreintiedig i hyrwyddo prentisiaethau fel llwybrau gwerthfawr a dangos parch cydradd â chymwysterau academaidd
- Darparu deunydd marchnata mewn gwahanol ieithoedd yn enwedig wrth ymgysylltu â chymunedau lleol a rhieni nad eu hiaith gyntaf, o bosib, yw'r Gymraeg neu Saesneg.

*Digwyddiadau / gweithgareddau allgymorth*

- Mynd i ffeiriau swydd, gwyliau diwylliannol, ac unrhyw expos sy'n canolbwyntio ar anabledd i godi ymwybyddiaeth am gyfleoedd prentisiaeth
- Datblygu ymgyrchoedd wedi'u targedu mewn lleoliadau annhraddodiadol ac amlygu sgiliau trosglwyddadwy
- Cynnull digwyddiadau recriwtio â chymorth / a rennir gyda staff cymorth ar y safle (e.e. hyfforddwyr swydd, dehonglwyr, cymorth ceisiadau), mannau diogel, ac addasiadau i gyfweliadau

*Arferion cynhwysol a chynrychiolaeth*

- Hyrwyddo pob gyrfa ar gyfer unrhyw ryw drwy herio stereoteipiau a defnyddio esiamplau o fywyd go iawn, fel menywod yn y diwydiant adeiladu, i ehangu apêl ac arddangos llwybrau amrywiol
- Wrth gyfathrebu, targedu grwpiau penodol fel carcharorion a chyn-bersonél y lluoedd arfog
- Cynyddu amrywiaeth ymhlith arweinyddiaeth a staff mewn sefydliadau sy'n cyflwyno neu'n cefnogi cyflwyno rhaglenni prentisiaeth er mwyn rhoi adlewyrchiad gwell o'r cymunedau a wasanaethir

*Terminoleg a modelau amgen*

- Ailystyried defnyddio'r gair 'prentis' yng nghyd-destun cynnig i bob oed (e.e. awgrymwyd 'dysgu seiliedig ar waith a ariennir' er mwyn apelio at weithwyr hŷn a rheolwyr lefel uwch)
- Datblygu modelau fel Llwybrau at Waith i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a grwpiau eraill sy'n agored i niwed
- Dysgu yn sgil mentrau eraill fel partneriaethau cydweithredol y Gynghrair Hyfforddiant a Gyrfaoedd Electrodechnegol Ranbarthol (ETCA) yn Lloegr a datblygu mentrau tebyg ar gyfer Cymru.

### Rhwystrau ariannol

Yn rheolaidd, byddai'r holl wahanol fathau o randdeiliaid yn cyfeirio at y ffaith bod problemau ariannol yn ei gwneud hi'n anodd i grwpiau tangynrychioledig gael mynediad i brentisiaethau a llwyddo ynddynt. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y modd y mae cyflogau isel prentisiaethau, diffyg cefnogaeth ariannol ar gyfer teithio, offer, neu ofal plant, a'r risg o golli budd-daliadau yn rhwystrau i grwpiau difreintiedig, dysgwyr hŷn, dysgwyr mewn ardaloedd gwledig, rhai sy'n wynebu heriau o ran

llythrennedd digidol, rhai sy'n methu byw gyda'u teulu, a rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. I liniaru'r rhwystrau hyn, awgrymodd rhanddeiliaid nifer o welliannau hirdymor, sydd ar draws cyfrifoldebau'r Llywodraeth. Roeddent yn cynnwys:

- Archwilio opsiynau ar gyfer bwrsariaethau, cronfeydd caledi, cymorthdaliadau gofal plant a chymhellion cwblhau i wneud prentisiaethau'n ymarferol yn ariannol i grŵp mwy amrywiol o ddysgwyr
- Adolygu strwythur cyflogau prentisiaethau waeth beth fo oedran prentisiaid, neu gynnig taliadau atodol i oedolion er mwyn cefnogi'r rhai sydd â chyfrifoldebau teuluol a chostau byw
- Cynnig cymorth wedi'i deilwra ar gyfer offer, trafnidiaeth a mynediad digidol, gan gynnwys buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cyd-fynd â lleoliadau prentisiaethau a phatrymau sifftiau
- Ehangu cynlluniau cymorth presennol ar gyfer teithio a chynhaliaeth
- Dod â hyfforddiant yn nes at ddysgwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, drwy unedau symudol neu hwbiau lleol.

Rhwystrau'n gysylltiedig ag Anabledd, ADY ac CDY, a llesiant.

Tynnodd rhai rhanddeiliaid o gymysgedd o sefydliadau sylw at heriau canfyddedig yn gysylltiedig â chefnogaeth i ddysgwyr ag anableddau neu ADY, gan gynnwys diffyg addasiadau rhesymol, cymorth arbenigol, neu ddeunyddiau hygyrch. Roedd rhai hefyd yn credu y gall y cyllid cymorth dysgu ychwanegol (CDY) presennol fod yn gymhleth a chael ei danddefnyddio, gan alw am symleiddio'r cyllid hwnnw a gwella'r mynediad ato. Nodwyd gan ychydig o randdeiliaid fod cyllid CDY yn cael ei adolygu gan Medr ar hyn o bryd. Roedd y gwelliannau a awgrymwyd gan randdeiliaid o ran hyn yn cynnwys:

- Symleiddio a safoni dulliau cyllido i sicrhau mynediad a chefnogaeth deg i rai sydd ag anghenion ychwanegol
- Gwella cefnogaeth gofleidiol ar gyfer iechyd meddwl, niwroamrywiaeth ac ADY, gan gynnwys addasiadau rhesymol rhagweithiol
- Archwilio sut y gellid rhannu cymorth llesiant fel gwasanaeth
- Ariannu pasbortau cynhwysiant personol[5] lle bo angen a chynlluniau cymorth dysgu ar gyfer pob prentis
- Darparwyr i gael adnoddau i gynnig cefnogaeth i brentisiaid ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cyfateb i'r hyn sydd ar gael mewn AB
- Ymgorffori mentora, hyfforddi a gofal bugeiliol ym mhob fframwaith prentisiaeth
- Rhoi cynlluniau gweithredu anabledd a mentrau dysgu cynhwysol ar waith ar draws pob sector

[5]Dogfen gyfrinachol sy'n eiddo i'r unigolyn yw pasbort cynhwysiant personol. Mae'n gofnod ffurfiol o anghenion cymorth ac addasiadau cytunedig ar gyfer unigolion ag anabledd, cyflwr iechyd, neu amgylchiadau personol eraill.

- Ehangu cefnogaeth ar ôl cwblhau a llwybrau pontio i brentisiaid.

### Arferion cyflogwyr a rhwystrau yn y gweithle

Gwelwyd achosion lle nododd rhanddeiliaid ragfarn cyflogwyr, diffyg recriwtio cynhwysol, a diwylliannau anghefnogol yn y gweithle fel rhwystrau i grwpiau tangynrychioledig. Yn ogystal â hynny, mae'n bosib na fydd gan gyflogwyr bach yr adnoddau neu'r wybodaeth i gefnogi prentisiaid amrywiol.

Roedd cred ar adegau fod dysgwyr yn ansicr ynghylch y gefnogaeth neu'r paratoad sydd ar gael wrth iddynt ymuno â byd gwaith, a gallai fod yn gymhleth canfod y cysylltiadau cywir i gael cymorth ar gyfer amhariadau neu anghenion iechyd meddwl.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn ynghylch ymgysylltu â chyflogwyr ac arferion recriwtio cynhwysol, roedd rhanddeiliaid yn dadlau o blaid y canlynol:

- Addysgu / hyfforddi cyflogwyr ar amrywiaeth, niwroamrywiaeth, arferion recriwtio cynhwysol, y Model Cymdeithasol o Anabledd, rhagfarn ddiarwybod, ac iaith gynhwysol (e.e. hyfforddiant byr gorfodol i reolwyr llinell prentis ar oruchwyliaeth gynhwysol, addasiadau rhesymol, a chymorth cyntaf iechyd meddwl)
- Cefnogi cyflogwyr i greu disgrifiadau swydd a phrosesau cyfweld cynhwysol, a diwylliannau cynhwysol yn y gweithle sy'n croesawu talent amrywiol
- Parhau i gynnig cymhellion i recriwtio a chadw dysgwyr anabl drwy gynlluniau ariannu a chydnabyddiaeth; gellid datblygu bathodynnau neu achrediad ar gyfer cyflogwyr sy'n bodloni safonau cynhwysiant
- Cyfeirio cynlluniau fel Mynediad at Waith i sylw cyflogwyr er mwyn talu am gostau ychwanegol Prentisiaethau â Chymorth
- Hyrwyddo a symleiddio mynediad at raglenni cymhelliant i bobl anabl
- Cryfhau cydweithio a monitro rhwng cyflogwyr a darparwyr
- Annog atebolrwydd cyflogwyr drwy ddata, targedau, a chymhellion sy'n gysylltiedig â chadw staff; gallai hyn gynnwys ymgorffori dangosyddion perfformiad allweddol cydraddoldeb yn nhrefniadau cyllido a sicrhau ansawdd darparwyr (e.e. darperir tystiolaeth glir o'r modd y mae cyflogwyr a darparwyr wedi ymgorffori Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb Cymru 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (2011) a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn eu harferion busnes).

### Gofynion mynediad a rhwystrau academaidd

Roedd rhai rhanddeiliaid o wahanol fathau yn teimlo bod gofynion mynediad (e.e. TGAU mewn Saesneg a Mathemateg) yn cael eu gweld fel rhwystr heb wirio, er enghraifft yn achos oedolion, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, a rhai â phrofiadau dysgu annhraddodiadol. Tynnwyd sylw hefyd at ofynion Sgiliau Hanfodol fel rhwystr i grwpiau tangynrychioledig (gweler hefyd 5.1). Roedd yr atebion a gynigiwyd ymhlith rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn nad ydynt eisoes wedi'u crybwyll yn gynharach yn yr adroddiad yn cynnwys:

- Amrywio dulliau ymgeisio (e.e. dewisiadau eraill yn lle ffurflenni ysgrifenedig a chyfweliadau safonol i rai ag ADY / niwroamrywiaeth)
- Dulliau asesu wedi'u teilwra'n fwy i'r unigolyn
- Darparwyr dysgu i asesu addasrwydd fframwaith yn seiliedig ar eu gwybodaeth fanwl am y dysgwr.

### Rhaglenni pontio a chyfleoedd lefel mynediad

Nodwyd gan rai fod diffyg prentisiaethau Lefel 2, e.e. mewn adeiladu, a rhaglenni cyflogadwyedd i'r rhai nad ydynt yn barod am gyrsiau lefel uwch, yn rhwystr i grwpiau tangynrychioledig. Roedd rhai o'r farn fod effaith y pandemig ar barodrwydd dysgwyr am waith yn parhau. Cynigiodd rhanddeiliaid yr awgrymiadau canlynol i'w harchwilio ymhellach (y mae rhai y tu hwnt i gylch gwaith Medr) fel dulliau o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn:

- Rhoi profiad gwaith â chymorth i ddysgwyr cyn iddynt adael yr ysgol, yn enwedig i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
- Datblygu mwy o sesiynau blasu, lleoliadau gwaith, cyrsiau byr, a rhaglenni cyn-brentisiaeth neu raglenni pontio i helpu'r rhai nad ydynt eto'n barod am brentisiaethau llawn
- Cyflwyno prentisiaethau sylfaen neu lefel mynediad fel cerrig camu o fewn y fframwaith ar gyfer dysgwyr sydd heb sgiliau parodrwydd am waith
- Defnyddio lleoliadau â chymhorthdal a gefnogir gan hyfforddwr swydd am gyfnod cyfyngedig cyn prentisiaeth lawn
- Gwarantu lle ar brentisiaeth sylfaen i unrhyw oedolyn cyflogedig â chymwysterau islaw Lefel 2 sy'n dymuno symud ymlaen yn ei sector presennol.

### Rhwystrau iaith

Soniodd rhai rhanddeiliaid am rwystrau iaith, gan gynnwys i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ESOL, a'r angen am fwy o ddarpariaeth a chefnogaeth ddwyieithog – er enghraifft mewn iechyd a gofal cymdeithasol a pheirianneg, yn enwedig ar lefelau prentisiaeth uwch. Disgwyliwyd y byddai darparu rhagor o gyllid yn y meysydd hyn o gymorth.

Camau ychwanegol

Yn olaf, cyflwynodd rhanddeiliaid nifer o argymhellion trawsbynciol i gefnogi cynhwysiant:

- Caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn dysgu (e.e. i ofalwyr, oedolion sy'n rheoli cyfrifoldebau gwaith a theulu)
- Datblygu data mwy cadarn ar gyfer cyfranogiad, cadw staff a chanlyniadau ar gyfer grwpiau tangynrychioledig; a defnyddio data demograffig sector a rhanbarthol i nodi bylchau a thargedu allgymorth lle bo'r gynrychiolaeth yn isel (e.e. gosod targedau cyfranogiad penodol ar gyfer oedolion heb gymwysterau ym mhob rhanbarth, gan neilltuo adnoddau'n unol â hynny)
- Parhau i integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddylunio rhaglenni a monitro ansawdd
- Sicrhau bod pob gwelliant yn cael ei lywio gan lais uniongyrchol y dysgwr sy'n ymgorffori lleisiau grwpiau tangynrychioledig i dynnu sylw at broblemau a mynd i'r afael â hwy'n fuan.
- Medr i ystyried canfyddiadau adolygiad Estyn o'r Cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol mewn Addysg Bellach
- Integreiddio polisi â strategaethau yn erbyn tlodi ac ar gyfer symudedd cymdeithasol.

## 9.2 Pa strategaethau recriwtio wedi'u targedu all gefnogi cyfranogiad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?

Roedd awgrymiadau rhanddeiliaid yn canolbwyntio'n bennaf ar themâu sydd eisoes wedi codi mewn cwestiynau blaenorol (e.e. mwy o allgymorth cymunedol ac ysgol, ymgysylltu cynnar, marchnata / cyfathrebu cynhwysol ac awgrymiadau ynghylch ymgysylltu â chyflogwyr).

## 9.3 A oes gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?

Effeithiau cadarnhaol canfyddedig cynigion y rhanddeiliaid

Roedd rhanddeiliaid yn adrodd yn rheolaidd fod gan y cynigion a gyflwynwyd ganddynt, fel allgymorth cynhwysol, modelau rôl, a llwybrau ymgeisio amrywiol, y

potensial i greu effeithiau cadarnhaol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd enghreifftiau'n cynnwys:

- Ehangu mynediad a chynrychiolaeth, yn enwedig o ran unigolion ag ADY, pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, a rhai o gefndiroedd difreintiedig o safbwynt economaidd-gymdeithasol.
- Cyfraddau cadw gwell drwy gefnogaeth gofleidiol, mentora, hyfforddi ac addasiadau rhesymol
- Cefnogaeth empathig drwy brofiad byw, gyda staff o grwpiau tangynrychioledig yn rhoi cefnogaeth sy'n ddiwylliannol gymwys.
- Camau gweithredu sy'n seiliedig ar ddata, gan ddefnyddio data demograffig i dargedu ymyriadau a monitro cynnydd.

Risgiau effaith negyddol / canlyniadau anfwriadol

Nododd rhai rhanddeiliaid risgiau a chanlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â strategaethau recriwtio wedi'u targedu. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Gallai gwaith papur cymhleth ar gyfer cymhellion / cymorth dysgu ychwanegol achosi oedi cyn dechrau prentisiaethau a bod yn rhwystr i fusnesau bach a chanolig
- Pryderon ynghylch teilyngdod a gwahaniaethu cadarnhaol gyda chyflogwyr yn cyflogi ar sail nodweddion gwarchodedig yn unig
- Rhaid mynd i'r afael â mynediad digidol er mwyn sicrhau cyfranogiad teg
- Gall cyflogwyr flaenoriaethu ymgeiswyr sy'n denu cymhellion er mwyn cael enillion byrdymor, heb ymrwymiad gwirioneddol i greu gweithleoedd cynhwysol
- Wrth recriwtio o grwpiau tangynrychioledig heb gyfleoedd ystyrlon am gynhwysiant a dilyniant gallai ymddangos fel pe bai'r cyflogwr yn ceisio creu argraff dda yn hytrach na thrawsnewid y gweithle.
- Ceir risg y bydd grwpiau eraill tangynrychioledig yn ymddieithrio os yw'n ymddangos fel pe bai mentrau'n canolbwyntio'n rhy gul ar un nodwedd warchodedig.
- Efallai nad oes gan gyflogwyr bach a micro-gyflogwyr ddigon o adnoddau nac arbenigedd i gefnogi prentisiaid, gyda'r perygl o greu profiadau a chanlyniadau anwastad.
- Gellir disgwyl i staff sydd â phrofiad personol 'gario'r' llafur emosiynol sy'n gysylltiedig â chynhwysiant, ac mae'n rhaid cydbwyso hynny â chymorth strwythurol a chyfrifoldeb a rennir.
- Yn anfwriadol, gall rhaglenni wedi'u targedu atgyfnerthu canfyddiadau o ddiffyg yn hytrach na grymuso, gan arwain at stigma neu labelu

- Mae perygl y gallai strategaethau recriwtio wedi'u targedu wthio rhai dysgwyr ar hyd llwybrau a bennwyd ymlaen llaw, yn hytrach na bod prentisiaethau yn un o amryw o opsiynau
- Os bydd cyllid yn parhau i fod yn fyrdymor, dysgwyr difreintiedig fydd yn dioddef effaith hynny fwyaf os daw rhaglenni i ben ar eu hanner
- Ceir risg o danariannu wrth gyflwyno rhaglenni mwy hyblyg, a allai danseilio'r effeithiau cadarnhaol.

## 9.4 A ddylem ni barhau i ariannu'r rhaglen prentisiaethau â chymorth a'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr?

Roedd mwyafrif llethol y rhanddeiliaid yn cefnogi parhau i ariannu'r rhaglen Prentisiaeth â Chymorth a'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr. Roedd rhai hefyd yn galw am gael ehangu, mireinio neu symleiddio'r Rhaglen.

Nododd rhanddeiliaid fod y cynlluniau'n hanfodol er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn prentisiaethau. Cyfeiriodd y rhanddeiliaid at dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd o ran ehangu cyfranogiad a chynnal dysgwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion ychwanegol neu o gefndiroedd difreintiedig.

Ystyriwyd bod y cynlluniau'n rhoi cymhelliant i gyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i recriwtio a chadw prentisiaid, gan wrthbwyso costau ac annog recriwtio cynhwysol.

Argymhellion ar gyfer gwella ac ehangu
Er bod cefnogaeth gref, pwynt cyffredin a wnaed oedd y gellid gwella ac ehangu'r naill gynllun a'r llall. Roedd yr awgrymiadau a gynigiwyd ymhlith rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Ailddylunio cynlluniau i fod yn fwy seiliedig ar dystiolaeth, yn fwy seiliedig ar ganlyniadau, ac yn fwy cynhwysol (e.e. taliadau cyllid sy'n gysylltiedig â chanlyniadau / cadw, taliadau graddol ar draws cerrig milltir (dechrau, 6 mis, 12 mis) i annog cefnogaeth wirioneddol gan gyflogwyr
- Ehangu cymhwysedd, er enghraifft caniatáu rhywfaint o gyllid i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal, pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ers amser hir, ac ystod oedran ehangach i sicrhau mynediad teg a chynhwysol
- Ystyried sut i gefnogi pobl ag anawsterau dysgu nad oes ganddynt o reidrwydd ddiagnosis o anabledd dysgu
- Symleiddio gwaith gweinyddol a lleihau cymhlethdod i ddarparwyr a chyflogwyr

- Medr i adolygu pa mor effeithiol y mae'r rhaglen Prentisiaeth â Chymorth bresennol yn cael ei thargedu a'i chyflwyno yn erbyn proffiliau targed blynyddol. Dylai hyn gynnwys ymgynghori â'r ystod lawn o randdeiliaid gan gynnwys unigolion a sefydliadau o grwpiau tangynrychioledig er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r rhesymau dros y lefelau isel o ymgysylltiad â'r Rhaglen.

## 9.5 A oes opsiynau eraill yn ogystal / yn lle hynny a fyddai'n helpu i gynorthwyo prentisiaethau cynhwysol yn fwy?

Mae'r prif themâu a awgrymwyd gan randdeiliaid ar gyfer y cwestiwn hwn eisoes wedi'u trafod yn yr adran hon (e.e. cymhellion a hyfforddiant i gyflogwyr, cymorth ariannol wedi'i dargedu, mwy o allgymorth, mentora gwell, gofal bugeiliol, a chymorth iechyd meddwl).

## 9.6 Beth allem ni ei wneud i gynorthwyo cyfranogiad mewn prentisiaethau ar gyfer y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?

Cynigiodd rhanddeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn amrywiaeth o gamau gweithredu i gefnogi grwpiau tangynrychioledig i mewn i brentisiaethau, sydd eisoes wedi'u trafod yn yr adran hon (e.e. allgymorth cryfach, gwell gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd - yn gynnwys gan ysgolion, llwybrau pontio, datblygu hwbiau un stop rhanbarthol, a mwy o gefnogaeth a hyfforddiant i gyflogwyr ar gyfer recriwtio cynhwysol).

# 10. Atodiadau

## Atodiad 1: Egwyddorion Lefel Uchel

Rydym yn cynnig y canlynol fel yr Egwyddorion Lefel Uchel ar gyfer y Rhaglen newydd:

- Y bydd yn rhaglen i bob oed
- Y bydd yn darparu prentisiaethau o lefel 2 i lefel 6
- Y bydd yn ymateb i newidiadau i'r galw am sgiliau ar draws yr economi ac i anghenion rhanbarthol o ran sgiliau
- y bydd yn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau, gan gynnwys ymateb i dechnolegau sy'n newid a sgiliau gwyrdd
- Y bydd yn diwallu anghenion dysgwyr a chefnogi eu dilyniant drwy'r system addysg drydyddol ac i mewn i'w gyrfa ddewisol a thrwy gydol yr yrfa honno
- Y bydd yn hyblyg ac yn ymatebol i sicrhau bod y cymwysterau a'r sgiliau cywir yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion cyflogwyr, dysgwyr a'r economi
- Y bydd yn darparu prentisiaethau cynhwysol sy'n hygyrch i ddysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd a dysgwyr â nodweddion gwarchodedig
- Y bydd yn cynyddu cyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael yn y Gymraeg
- Y bydd yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel sy'n cryfhau canlyniadau a chyrhaeddiad dysgwyr

# Atodiad 2: Fframweithiau sector newydd arfaethedig

Gofal
Iechyd a gwyddoniaeth
Peirianneg a gweithgynhyrchu
Creadigol, dylunio a'r cyfryngau
Gwasanaethau a rheoli busnes
Gwasanaethau cyhoeddus a diogelu
Addysg a'r blynyddoedd cynnar
Arlwyo a lletygarwch
Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig

Y Gyfraith, Cyllid a Chyfrifyddu
Digidol
Gwallt a harddwch
Amaethyddiaeth, yr amgylchedd a gofal anifeiliaid
Trafnidiaeth, moduro a logisteg
Ynni
Bwyd a diod
Gwasanaethau eiddo
Chwaraeon a Hamdden

# Atodiad 3 : Enghreifftiau o arfer da gan randdeiliaid ar gyfer ehangu cyfranogiad a denu grwpiau tangynrychioledig

Rhannodd rhai rhanddeiliaid enghreifftiau o arfer da yr adroddwyd eu bod wedi cefnogi grwpiau tangynrychioledig wrth recriwtio a chadw prentisiaethau, ac wedi cefnogi cynhwysiant. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

*Cymorth a chynnwys dysgwyr*

- Credwyd bod cymorth dysgu ychwanegol, gan gynnwys cynlluniau dysgu wedi'u teilwra, hyfforddwyr swyddi, ac addasiadau rhesymol, wedi bod yn effeithiol er mwyn gwella cyfraddau cadw a chwblhau
- Modelau mentora a gofal bugeiliol y dywedir iddynt ddangos cyfraddau cadw a chwblhau gwell
- Dywedir bod modelau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a darparwyr AB wedi llwyddo i gefnogi oedolion i ailhyfforddi neu uwchsgilio
- Systemau cyfaill
- Rhaglen lletygarwch coleg lle mae dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn creu a chyflwyno bwydlenni mewn bwyty cyhoeddus. Gwelwyd hyn fel rhywbeth a oedd yn meithrin profiad a hyder yn y byd go iawn i ddysgwyr, ac yn enghraifft o'r modd y gellir teilwra prentisiaethau i anghenion amrywiol dysgwyr a darparu llwybrau cyflogaeth ystyrlon
- Model 'Llwybr i Waith' Aspire sydd wedi'i deilwra ar gyfer carfan Plant sy'n Derbyn Gofal un o'r rhanddeiliaid, ochr yn ochr â menter Dechrau'n Gyflym Aspire
- Rhoddwyd y rhwydwaith prentisiaid yng Ngwynedd fel enghraifft gadarnhaol o gefnogaeth gan gymheiriaid, gan greu ymdeimlad o gymuned a chyfleoedd dysgu ychwanegol i brentisiaid.

*Partneriaethau cymunedol ac allgymorth*

- Dywedir bod ymgyrchoedd recriwtio ehangach wedi cynyddu cyfranogiad amrywiol yn enwedig mewn galwedigaethau crefft
- Gwasanaeth tân wedi estyn allan at fenywod a grwpiau lleiafrifol

*Cyllid a chymorth ariannol*

- Disgrifiwyd Prentisiaethau â Chymorth a Chynlluniau Cymhelliant i Gyflogwyr (gweler 9.4) fel rhai a wnaeth helpu i leihau rhwystrau a hyrwyddo recriwtio cynhwysol.
- Roedd cymorth ariannol ar gyfer cludiant yn helpu i ehangu cyfranogiad

*Mentrau penodol i sector*

- Datblygu mentrau a phecynnau cymorth sy'n benodol i'r sector, er enghraifft gyda Chynghrair Prentisiaethau Cymru (e.e. prosiect A465 Blaenau'r Cymoedd); mae model Academi Gofal Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi arweiniad effeithiol ar gefnogi prentisiaid o gefndiroedd amrywiol gyda chefnogaeth well yn y gweithle; menter Solar Energy UK i adeiladu diwydiant solar mwy cynhwysol, ac ymdrechion Sefydliad MCS i ddenu cenhedlaeth z i swyddi ôl-osod ac ynni adnewyddadwy
- Dywedir bod profiadau'r sector iechyd yng Ngogledd Cymru yn dangos bod Prentisiaethau â Chymorth yn elwa ar hwb canolog sy'n rhoi cefnogaeth ychwanegol i brentisiaid a chyflogwyr lleol
- Rhaglenni pwrpasol Deloitte

*Modelau hanesyddol*

- Defnyddio'r hyn a ddysgwyd o raglenni blaenorol fel Sgiliau ar gyfer Diwydiant ac Uwchsgilio yn y Gwaith, Adeiladu Sgiliau, Hyfforddiant ar gyfer Gwaith, a'r Fargen Newydd

*Dulliau cyflwyno hyblyg a hygyrchedd*

- Clywyd bod achrediad modiwlaidd, dulliau cyflwyno hyblyg ac ymgorffori cymorth ADY/ESOL wedi gwella mynediad a chyfraddau cadw.

Hefyd, tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at effeithiolrwydd rhaglenni fel Cysylltu â Gwaith a Trailblazer er mwyn rhoi cefnogaeth i bobl ag anghenion cymhleth gael swydd. Dylid parhau â mentrau o'r fath a'u hymestyn i ehangu cyfranogiad ymhellach, yn ôl rhanddeiliaid mynegi'r pwynt.